

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Cynllun Cydraddoldeb Strategol Adroddiad Blynyddol Ebrill 2013 - Mawrth 2014

Ffuriau Hygyrch

Bydd y ddogfen hon a'r dogfennau ategol yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ffurfiau safonol Microsoft Word a PDF mewn ffont Arial maint 12. Bydd ffurfiau hygyrch eraill, yn cynnwys print bras, Braille, DVD iaith arwyddion Prydain, hawdd ei ddarllen, sain ac electronig ac ieithoedd eraill ar gael, ar gais.

Tîm Amrywiaeth Cymunedol
Yr Adran Lles a Datblygu Cymunedol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
16 Stryt yr Arglwydd
Wrecsam
LL11 1LG

Ffôn: 01978 298736

E-bost: onewrexham@wrexham.gov.uk



Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Adroddiad Blynyddol 2013-14

Cynnwys:

Adran		Rhif Tudalen
	Rhagair	3
1	Crynodeb gweithredol	4
2	Cyflwyniad a chefnidir	5
3	Cynnydd yn erbyn dyletswyddau cyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010	9
4	Cynnydd yn erbyn dyletswyddau penodol Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru) 2011	11
5	Casglu gwybodaeth ac Ymgysylltu	11
6	Defnyddio gwybodaeth i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol	13
7	Gweithwyr Cyngor Wrecsam	13
8	Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb	14
9	Hyfforddiant a Chodi Ymwybyddiaeth	17
10	Caffael	19
11	Casgliad a phrif gamau gweithredu ar gyfer 2014-15	20
12	<u>Atodiadau</u>	
	1. Cynllun Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol	21
	2. Gwybodaeth am Gydraddoldeb	36
	3. Rhestr Termiau	41

Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Adroddiad Blynyddol 2013-14

Rhagair:

Dyma ail adroddiad blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) y Cyngor 2012-16 http://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/equality/stategic_equality_plan_2012-16.pdf mae'n ymdrin â'r cyfnod rhwng Ebrill 2013 a Mawrth 2014. Mae'r adroddiad yn egluro:

- sut y mae'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau cyffredinol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
- sut y mae'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau penodol o dan Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru) 2011; a'r
- cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcanion a chamau gweithredu cydraddoldeb a nodir yn y cynllun.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn dechreuodd y Cyngor raglen o ail lunio nifer o'i wasanaethau oherwydd y cyfyngiadau yn dilyn toriadau cyllidebol llywodraeth leol. Roedd hon yn her sylweddol i ni. Rwy'n falch mai sylfaen ein dull o ymdrin â'r toriadau hyn yw blaenoriaethu'r rhai diamddiffyn. Mae ein hymroddiad i'r Broses Aseiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi'n galluogi i liniaru effaith y toriadau cymaint ag y gallwn.

Canolbwynt allweddol yn ystod 2013-14 oedd:

- prif ffrydio'r rhaglen cydraddoldeb ar draws y cyngor;
- Ymgorffori'r amcanion cydraddoldeb o fewn cynlluniau gwasanaeth adrannol;
- rhannu gwybodaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth ledled y sefydliad;
- Cefnogi staff i gyflawni eu cyfrifoldebau mewn perthynas â dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus; a
- Pharhau i ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion ein cwsmeriaid.

Rwyf yn falch ein bod wedi llwyddo i gyflawni cynnydd, diolch i ymrwymiad a gwaith caled ar y cyd gan holl adrannau'r Cyngor. Fodd bynnag, mae'n iawn cydnabod hefyd bod meysydd y gellid parhau i'w gwella os ydym am fynd i'r afael o ddifrif â'r anghydraddoldebau a nodir ac a wynebir gan nifer o bobl ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw sicrhau bod Wrecsam a'i phobl yn derbyn cefnogaeth i wireddu eu potensial ac i ffynnu. Trwy'r gwaith rydym yn ei wneud i ddileu gwahaniaethu ac anghydraddoldeb ac i feithrin perthynas dda â'r gymuned rydym yn ceisio mynd ati'n rhagweithiol i droi'r weledigaeth honno yn realiti i bawb yn y Fwrdeistref Sirol.



Cynghorydd Hugh Jones, YH, Aelod Arweiniol Cymunedau, Partneriaethau a Chydweithio

1. Crynodeb Gweithredol:

Mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i gyflawni anghenion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus sef:

- Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal; a
- Meithrin perthynas dda.

Hefyd mae'n rhaid i ni sicrhau bod gennym y prosesau cywir ar waith i hyrwyddo cydraddoldeb a monitro effaith ein gwaith ar gydraddoldeb.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol [CCS] 2012-16

http://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/equality/stategic_equality_plan_2012-16.pdf yn nodi'r nodau ac amcanion cydraddoldeb yr ydym wedi'u dynodi fel rhai sydd yn bwysig iawn i bobl Wrecsam. Rydym wedi dynodi pobl allweddol yn y Cyngor yn cynnwys yr Aelod Arweiniol Etholedig dros gydraddoldeb ac amrywiaeth, Penaethiaid Adrannau a swyddogion Gwella Cydraddoldeb, i'n cynorthwyo i arwain y gwaith o weithredu'r Cynllun ac i sicrhau ein bod yn datblygu diwylliant o wella parhaus.

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r cynnydd a wnaed gennym yn ystod 2013/14 wrth weithredu'r CCS, datblygu'r camau gweithredu ychwanegol a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad blaenorol a'r prosesau y gwnaethom eu rhoi ar waith i'n cynorthwyo.

Ar y cyfan, rydym wedi cyflawni llwyddiant da o ran gweithredu Cynllun Gweithredu'r CCS 2013-14; Dyletswydd Cyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010 a rheoliadau 2011 Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru). Mae rhai enghreifftiau'n cynnwys:

- Datblygu Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu 2013-17;
- Datblygu Pecyn Gwaith Ymgynghori;
- Datblygu a gweithredu proses syml ar gyfer Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb gan gynnwys fersiwn electronig;
- Datblygu proses sicrwydd ansawdd ar gyfer Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb;
- Datblygu amrywiaeth o fodiwlau e-ddysgu i ymgorffori hyfforddiant cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth ledled y sefydliad;
- Parhau i wella data monitro cydraddoldeb yn y gweithlu; a
- Safoni'r holiaduron monitro cydraddoldeb i'w defnyddio gan adrannau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd.

Er y gwnaethpwyd cynnydd da, mae llawer o waith i'w gwblhau. Yn ogystal â'r amcanion a nodwyd eisoes yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol byddwn hefyd yn symud ymlaen â'r materion canlynol yn 2014/15:

- Gwella'r defnydd o ddata cydraddoldeb i hysbysu datblygiadau gwasanaeth;
- Gwella ymgysylltu gyda'r cyhoedd o ran cydraddoldeb a meysydd eraill o fusnes y Cyngor;
- Gwella cysondeb dull adrodd y CCS; a
- Pharhau i ddatblygu targed a chanlyniadau CCS y gellir eu mesur.

Mae mwy o fanylion yn y prif adroddiad. Os hoffech gyflwyno sylwadau arno cysylltwch â ni:

Ffôn: 01978 298736. E-bost: onewrexham@wrexham.gov.uk

2 .Cyflwyniad a chefnidir:

Diffinnir cydraddoldeb fel a ganlyn:

‘Cymdeithas gyfartal sy’n hyrwyddo ac yn amddiffyn rhyddid cyfartal, gwirioneddol a chyfle i fyw yn y modd y byddai pobl yn ei werthfawrogi a’i ddewis, er mwyn i bawb gael ffynnu. Mae cymdeithas gyfartal yn cydnabod gwahanol anghenion, sefyllfaoedd a nodau pobl, ac yn dileu’r rhwystrau sy’n cyfyngu ar yr hyn y gall pobl ei wneud a’i fod.’

[CLILC, Fframwaith Gwella Cydraddoldeb Cymru, 2012]

Roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn dwyn ynghyd nifer o wahanol ddeddfwriaethau i greu un fframwaith cyfreithiol er mwyn ymdrin â gwahaniaethu ac anfantais yn fwy effeithiol. Mae’r Ddeddf yn nodi grwpiau o bobl yr ystyrir bod ganddynt ‘nodweddion a ddiogelir’:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Hil
- Crefydd a Chred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Priodas a Phartneriaethau Sifil

Ymdrinnir â’r Gymraeg gan Ddeddf Iaith Gymraeg 1993 ac mae gan y Cyngor Gynllun Iaith ar wahân i sicrhau bod y Gymraeg a’r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.

http://www.wrexham.gov.uk/english/council/documents/welsh_language_scheme.htm

Ym mis Ebrill 2011 gosodwyd ‘dyletswydd gyffredinol’ statudol ar bob corff cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr i weithredu’r canlynol:

- Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau o bobl sy’n rhannu nodweddion a ddiogelir a phobl nad ydynt; a
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy’n rhannu nodweddion a ddiogelir a phobl nad ydynt.

Hefyd, mae gan Gyngorau Cymru ddyletswyddau cyfreithiol penodol a nodir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru) 2011, sef:

- Cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac amcanion cydraddoldeb bob 4 blynedd;
- Gweithgareddau i ymgysylltu a chynnwys grwpiau sydd â ‘nodweddion a ddiogelir’;
- Sicrhau bod yr holl ddeunydd a gyhoeddir yn hygyrch;
- Asesu effaith polisïau a chynlluniau perthnasol;
- Hyfforddiant a chasglu gwybodaeth am gyflogaeth;
- Hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o’r Ddeddf Cydraddoldeb ar draws y sefydliad;
- Ymdrin â gwahaniaethau cyflog annheg;
- Defnyddio arferion caffael i gyfrannu at gyflawni amcanion cydraddoldeb; ac
- Adolygu’r cynnydd a wnaed i weithredu’r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a chynlluniau gweithredu cysylltiedig.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Wrecsam (CCS) 2012-16:

Lluniodd y Cyngor ei CCS yn 2011 ar ôl ymgysylltu â grwpiau lleol a rhanbarthol a sefydliadau a oedd yn cynrychioli pobl a chanddynt amrediad eang o nodweddion a ddiogelir. Fe wnaeth hyn ein galluogi i nodi amcanion cydraddoldeb lleol. Fe wnaethom hefyd weithio gyda'r cyrff cyhoeddus eraill ar draws Gogledd Cymru i nodi amcanion cydraddoldeb rhanbarthol. Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i'w nodi yn cael ei egluro yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. <http://www.wrexham.gov.uk/english/council/equality/equality.htm>

Roedd tystiolaeth i ddarparu yn erbyn yr amcanion hyn yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor (CCS) (amcanion cydraddoldeb lleol a rhanbarthol), Strategaeth Cydlynad Cymunedol ac mewn Cynlluniau Gwasanaeth adrannol. Roedd Adolygiad Cyfoedion Llywodraeth Leol Cymru o'r dull hwn yn 2012 wedi cyflwyno nifer o argymhellion gan gynnwys y dylid uno'r gwaith mewn un dogfen oedd yn ategu at ddarpariaeth Cynllun y Cyngor ac yn gysylltiedig â chynlluniau gwasanaethau adrannol yn uniongyrchol. Bwriad hyn oedd cynorthwyo'r ddarpariaeth a monitro. Derbyniwyd yr argymhelliad ac fe unwyd y cynlluniau gweithredu yn ystod 2013. Mae'r tabl isod yn arddangos sut y mae'r amcanion cydraddoldeb yn sail i holl waith Cynllun y Cyngor. Yn ogystal â hyn gallwn arddangos ein cyfraniad corfforaethol at Gynllun Integredig Sengl y Fwrdeistref Sirol http://www.wrexhamlsb.org/assets/pdf/lsb_plan_2013-2024.pdf

Tabl 1: Amcanion cydraddoldeb sy'n sail i Gynllun y Cyngor a'r Cynllun Integredig Sengl.

Cynllun Integredig Sengl	Themâu Cynllun y Cyngor	Cynllun y Cyngor - canlyniad au Blaenoriaeth	Amcanion Cydraddoldeb (cyfun)
<p>Gwneud Wrecsam yn lle gydag economi gref, gwydn a chyfrifol</p> <p>Gwneud Wrecsam yn lle gall pobl fyw yn annibynnol, yn iach ac yn egniol.</p> <p>Gwneud Wrecsam yn lle diogel a lle mae pawb yn teimlo wedi'u cynnwys.</p>	Economi	Mae pobl eisiau byw, gweithio, dysgu a buddsoddi yma Mae busnesau yn gallu sefydlu a thyfu yma Mae pobl yn gallu ffynnu fel unigolion yn eu cymunedau	1. Lleihau anghydraddoldeb mewn cyflogaeth a thâl ar gyfer rhyw a nodweddion eraill a ddiogelir a chynllun gweithredu fel bo'n briodol
	Pobl	Mae gan blant a phobl ifanc ddyheadau, ac maent yn gallu dysgu a gwreddu eu potensial. Mae plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu Mae pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel Mae pawb yn gallu gwneud dewisiadau iach Mae holl bobl hŷn diamddiffyn yn ddiogel, â'r iechyd gorau posibl, annibyniaeth a lles Mae'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn cael ei hybu a'i chefnogi	<p>2. Lleihau anghydraddoldebau o ran lechyd</p> <p>3. Lleihau canlyniadau anghyfartal ym maes Addysg i wneud y mwyaf posibl i wireddu potensial unigolion</p> <p>4. Lleihau anghydraddoldeb mewn diogelwch personol</p> <p>5. Mae pobl yn hyderus yn adrodd am densiynau cymunedol</p> <p>6. Hyrwyddo cysylltiadau da o fewn a rhwng gwahanol gymunedau</p> <p>7. Lleihau anghydraddoldebau o ran Cynrychiolaeth a Llais</p>
	Lle	Cartrefi sy'n diwallu anghenion a dyheadau pobl Lle amgylcheddol cyfrifol Cymunedau o gymdogaethau, adeiladau a mannau agored cynaliadwy a deniadol Cymunedau wedi eu cysylltu'n dda	8. Lleihau anghydraddoldebau wrth gael mynediad i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

Sefydliad	Cwsmeriaid bodlon sy'n rhan o'n hymdrechion Creu'r amodau ar gyfer llwyddiant	9. Mae'r sefydliad angen hyrwyddo cydraddoldeb o safbwynt canlyniadau i'w cyflawni
		10. Datblygu ymagwedd fwy strategol tuag at gasglu a defnyddio data cydraddoldeb
		11. Gwella'r broses o fonitro gweithlu ar draws nodweddion a ddiogelir
		12. Adolygu a gwella polisiâu cyflogaeth i fynd i'r afael â than-gynrychiolaeth ac unrhyw rwystrau i gael mynediad at waith
		13. Codi ymwybyddiaeth am ofynion o fewn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mewn cysylltiad â chaffael i sicrhau bod contractau'n cael eu monitro
		14. Annog trafodaeth ar faterion cydraddoldeb mewn cyfarfodydd tîm ar gyfer pob maes gwasanaeth
		15. Staff sector cyhoeddus, gwirfoddol a chymunedol yn deall pwy yw ein cymunedau a beth maent ei angen

Mae gwaith cyffredinol y Cyngor ar gydraddoldeb yn cael ei gefnogi gan y Cynllun Iaith Gymraeg http://www.wrexham.gov.uk/english/council/documents/welsh_language_scheme.htm a'r Strategaeth Canolbwyntio ar y Cwsmer http://www.internal.wrexham.gov.uk/wordpress/wp-content/uploads/2013/03/customer_focus_strategy_2009_2012.pdf

Arweinwyr, cefnogwyr a rhwydweithiau cydraddoldeb

Mae Aelod Arweiniol Cymunedau, Partneriaethau a Chydweithio'n derbyn rôl arweiniol o ran hyrwyddo a goruchwyllo gwaith y Cyngor mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae cymorth strategol yn cael ei ddarparu gan Bennaeth Lles a Datblygu Cymunedol. Mae'r Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a Llywodraethu yn derbyn adroddiadau a diweddariadau monitro rheolaidd.

Mae'r tîm Amrywiaeth Cymunedol yn darparu cefnogaeth i brif ffrydio cydraddoldeb ac amrywiaeth ledled y Cyngor gan gynnwys rheolaeth weithredol o'r Grŵp Gwella Cydraddoldeb (GGC). Dyma grŵp cydraddoldeb corfforaethol y Cyngor sy'n cynnwys cynrychiolwyr cydraddoldeb o'r holl adrannau. Cadeirydd a chefnogwr y Grŵp yw Pennaeth Lles a Datblygu Cymunedol.

Darpariaeth Fewnol a Phrosesau Monitro

Prosesau Darparu:

Mae darpariaeth y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei gyflawni drwy Gynlluniau Gwasanaeth adrannol. Bwriad hyn yw sicrhau bod monitro cydraddoldeb wedi'i ymgorffori yn system rheoli perfformiad corfforaethol y Cyngor.

Mae'r Cyngor wedi gosod tair thema strategol allweddol:

- Pobl
- Economi
- Lle

Mae'r rhain yn cael eu hategu gan bedwaredd thema gorfforaethol 'Trefnu – ymdrechu am ragoriaeth'. Mae'r themâu wedi'u disgrifio'n fanwl yng Nghynllun y Cyngor (2012-16) <http://www.internal.wrexham.gov.uk/wordpress/wp-content/uploads/2013/03/Council-Plan-2014-17.pdf> ynghyd ag amrywiaeth o gamau gweithredu a mesuryddion canlyniadau sydd wedi'u dylunio i sicrhau bod pobl Wrecsam yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial ac i ffynnu. Fodd bynnag fe wyddwn fod rhai pobl, y rhai gyda 'nodweddion a ddiogelir ' yn llai tebygol o brofi manteision y gwaith ac yn fwy tebygol o brofi gwahaniaethu. Trwy gysylltu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol gyda'r Cynlluniau Gwasanaeth Adrannol gallwn nodi lle y gallai wahaniaethu ddigwydd o ran darparu ein gwasanaethau a chymryd camau i liniaru hyn.

Yn ystod hydref 2013-14 gwnaed gwaith gyda'r adrannau i sicrhau bod yr amcanion cydraddoldeb syml wedi'u nodi'n benodol yn eu cynlluniau gwasanaeth. O 2014-15 byddwn yn gallu nodi cyfraniadau adrannau tuag at bob un o'r amcanion cydraddoldeb [Tabl 1, uchod]. Mae'r dull hwn yn ganolog i'n penderfyniad i brif-ffrydio ystyriaethau cydraddoldeb fel rhan o bopeth a wnawn.

Monitro:

Bydd y dull diwygiedig hwn yn galluogi data cydraddoldeb cyfranredol mewn perthynas â Chynllun y Cyngor a'r Cynllun Integredig Sengl. Mae trefniadau monitro adrannol yn cael eu gweithredu gan ddefnyddio egwyddorion Canlyniadau'n Cyfrif lle bo modd a lle bo'n briodol. Fodd bynnag, ar gyfer rhai meysydd gwasanaeth y canolbwynt ar gyfer 2014-15 fydd sefydlu data gwaelodlin yn hytrach na thargedau gwella.

Pwrpas monitro cydraddoldeb yw derbyn gwell dealltwriaeth o bwy sy'n derbyn ein gwasanaethau a phwy nad ydynt yn derbyn yn ein gwasanaethau ynghyd â sefydlu'r hyn y mae unigolion ei angen gan ein gwasanaethau. Bydd yr wybodaeth hon yn ein cynorthwyo i dargedu adnoddau lle bo'u gwir angen; gan flaenoriaethu'r rhai mwyaf diamddiffyn yn ein cymunedau.

Yn ystod 2014-15 byddwn yn ymgorffori'r dull hwn i'n systemau cynllunio a monitro. O 2015 ymlaen byddwn yn ceisio tystiolaethu gwelliannau o ran monitro a chanlyniadau cydraddoldeb ar gyfer y bobl.

Cynnydd o ran gweithredu Cynllun Gweithredu'r CCS 2013-14:

Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer cyflenwi Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor (CCS) wedi'i gynnwys yn Atodiad 1, yn y ffurf gwreiddiol sy'n nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â phob un o'r amcanion.

Craffu:

Ym mis Tachwedd 2013 ystyriodd Aelodau'r Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad ac Adnoddau yr adroddiad diweddar ynglŷn â gwaith cydraddoldeb ac amrywiaeth y Cyngor. Disgwylir adroddiad pellach yn y Pwyllgor Craffu ym mis Gorffennaf 2014.

Cynnydd yn erbyn dyletswyddau cyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010

Symudwyd ymlaen ag amrywiaeth o weithgareddau mewn perthynas â phob un o'r dyletswyddau cyffredinol yn ystod 2013-14. Roedd y rhain yn cynnwys:

Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu, ac erledigaeth:

- Adroddwyd am 14 o droseddau casineb i'r Cyngor yn ystod 2013-14, roedd y mwyafrif yn droseddau hiliol;
- Darparwyd hyfforddiant ynglŷn â throseddau hiliol i Weithwyr Ieuencid, staff Adran Tai, AVOW, CAB, Coleg Cambria, Cymdeithas Fwslimaidd Wrecsam, tîm cefnogi myfyrwyr Prifysgol Glyndŵr;
- Datblygwyd prosiect peilot yn Ysgol Bryn Alyn ynglŷn â bwlio ar gyfryngau cymdeithasol ac anfon negeseuon testun anwedus yn dilyn ceisiadau gan y disgyblion. Roedd hyn yn cynnwys perfformiad gan Gwmni Theatr Cat's Paw, Gwersi Addysg Cyfoedion a chwe gwerau ar gyfer disgyblion Blwyddyn 8. Mae hyn yn cael ei ddarparu i'r holl ysgolion uwchradd yn awr. Enillodd y prosiect Wobr Gwasanaeth Cymunedol Uchel Siryf Clwyd.
- Bellach mae 30 o Ganolfannau Adrodd Trydydd Parti ar draws y Fwrdeistref Sirol;
- Fe wnaeth gweithwyr Strydwedd gael gwared ag 8 achos o graffiti hiliol ar y diwrnod yr adroddwyd amdanynt;
- Cefnogi datblygiad dull Rhanbarthol Gogledd Cymru i drechu Caethwasiaeth Fodern;
- Cydnabod Diwrnod y Rhuban Gwyn i hyrwyddo ymwybyddiaeth am drais domestig a thrais rhywiol. Cynhaliwyd prosiect i bobl ifanc gyda myfyrwyr Coleg Iâl er mwyn codi ymwybyddiaeth am Drais Domestig;
- Mae data Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol bellach yn cynnwys gwybodaeth am nifer yr achosion yn ymwneud â Phobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME), Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT), ac anabledd a atgyfeirir at Gynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth Wrecsam gan awgrymu bod y ffigyrau ar gyfer Wrecsam yn cydymffurfio â'r ffigyrau o ardaloedd eraill yng Ngogledd Cymru, y rhan fwyaf o luoedd tebyg a data cenedlaethol. Mae offer Gwella Diogelwch a Gwyliadwriaeth Digidol ar gael er mwyn galluogi dioddefwyr i aros yn eu cartrefi eu hunain;
- Mae hyfforddiant amlasiantaeth cam-drin domestig yn cynnwys sesiynau ynglŷn â materion Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig a Phobl Hŷn.
- Cynyddu'r gefnogaeth a chanllawiau i ysgolion i fynd i'r afael â bwlio;
- Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi sefydlu Tîm Diogelu Pobl (TDP) er mwyn cryfhau trefniadau diogelu;
- Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a Heddlu Gogledd Cymru i sefydlu Canolfan Ddiogelu Aml-Asiantaeth (MASH) peilot i gyd-drefnu'r ymateb i bryderon yr Heddlu mewn perthynas â phlant ac oedolion diamddiffyn; a
- Darparwyd hyfforddiant Ymarferwyr Iechyd Meddwl Cymeradwy (YIMC) i weithwyr cymdeithasol ar draws timau gweithwyr cymdeithasol ac Iechyd Meddwl Cymunedol. Mae hyn yn rhan o ymgyrch i wella gwasanaethau Iechyd Meddwl integredig.

Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau o bobl sy'n rhannu nodweddion a ddiogelir a phobl nad ydynt:

- Gwella'r ffordd yr ydym yn gweithio gyda grwpiau cymunedol mewn perthynas â gofynion gwasanaethau gwastraff e.e. cynyddu nifer y casgliadau yn ystod Ramadan;
- Cynyddu hygyrchedd gwasanaethau ailgylchu drwy gynyddu'r defnydd o arwyddion darluniadol yn ein deunyddiau hyrwyddo;
- Gwella'r terfynau amser ar gyfer darparu Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl;
- Bwrw ymlaen â pheilot Archwiliad Mynediad i lywio datblygiad cefnogaeth well ar gyfer yr holl ysgolion yn y Fwrdeistref Sirol;
- Darparu gwasanaethau llyfrgell Cyswllt Cartref ar gyfer unigolion nad ydynt yn gallu ymweld â'r llyfrgell;
- Darparu amrywiaeth o adnoddau hygyrch yn y llyfrgelloedd e.e. casgliad gwybodaeth i Ofalwyr, casgliad llyfrau llafar Pwyleg, adnoddau Prawf Dinasyddiaeth y DU;

- Datblygu categori benthycwyr llyfrgell newydd ar gyfer pobl digartref;
- Gwnaed cynnydd sylweddol o ran data staff Adnoddau Dynol yn y cyngor;
- Parhau i adolygu ein polisiâu gan gynnwys polisi Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol sydd wedi'i ddiweddarau'n unol â chanllawiau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- Cwblhaodd y tîm Parciau Gwledig welliannau mynediad ym Mharc Bryn Kinalt lle'r oedd y llwybr yn serth ac yn anodd cael mynediad ato. Mae'r giât fynediad newydd yn ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr anabl gael mynediad i'r safle.
- Mae'r tîm Parciau Gwledig wedi gweithio'n agos gydag amrywiaeth o grwpiau anabledd i greu ardal chwarae synhwyrdd ym Mharc Gwledig Dyfroedd Alun. Mae gan y parc wahanol fathau o arwynebau a gwadau ac offer sy'n fwy hygyrch i'r holl ddefnyddwyr.
- Cynorthwyodd y tîm Parciau Gwledig y Clwb Pysgota yn Acton i dderbyn grant Trefi Taclus. Defnyddiwyd hyn i greu plattform hygyrch er mwyn galluogi unigolion gyda llai o symudedd i gael mynediad at y llyn pysgota er mwyn pysgota neu ar gyfer gweithgareddau addysgol.
- Adolygodd y Gwasanaethau Gorfodi'r cynllun Bathodyn Glas i hyrwyddo mynediad ar gyfer yr unigolion sy'n gymwys i barcio yn y gofodau Parcio dynodedig ar gyfer pobl anabl. Rydym wedi datblygu ymgyrch codi ymwybyddiaeth gan gynnwys poster dwyieithog i leihau camddefnydd neu ddefnydd twyllodrus o Fathodynnau Glas.
- Er mwyn sicrhau bod tystiolaeth mai llais y plentyn neu'r unigolyn ifanc sy'n cael ei glywed ac y gwrandewir arno yn ystod y broses asesu mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi datblygu a chyflwyno dogfen asesiad cyfunol newydd.
- Roedd y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gwella'r wybodaeth i Ofalwyr trwy gynyddu'r amrywiaeth o ffynonellau cyfryngol, dan logo 'Gofalwyr Wreccsam'. Dywed 96% o'r Gofalwyr ac arolygwyr eu bod yn teimlo fod ganddynt 'sgiliau, hyder a gwybodaeth wrth ofalu' a dywed 96% fod ganddynt 'ddigon o wybodaeth' ynglŷn â bod yn Ofalwr.
- Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi datblygu offer asesu effaith cymdeithasol i gefnogi dadansoddiad ehangach unrhyw benderfyniad polisi ar y gymuned a grwpiau neu feysydd budd-ddeiliaid ehangach.
- Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi sefydlu grŵp cydraddoldeb a'r Gymraeg i gymell a monitro cynnydd.

Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion a ddiogelir a phobl nad ydynt.

- Fe wnaeth y Grŵp Monitro Tensiynau Cymunedol nodi ac ymateb i 25 achos o densiwn yn y gymuned;
- Dathlu Mis Cenedlaethol Hanes y Sipsiwn, Roma, Teithwyr mewn partneriaeth â'r gymuned Sipsi a Theithwyr lleol ac asiantaethau sy'n bartneriaid;
- Dathlu Wythnos Genedlaethol Ffoaduriaid mewn partneriaeth gyda ffoaduriaid lleol ac asiantaethau sy'n bartneriaid.
- Dathlu Wythnos Genedlaethol Rhyng-ffydd mewn partneriaeth â Thangnefedd;
- 14,149 o bobl yn cymryd rhan mewn Dysgu Cymunedol i Oedolion ar eiddo llyfrgell;
- 5,089 o blant wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau llythrennedd plant mewn llyfrgelloedd;
- 2,680 o oriau o weithgareddau gwirfoddol yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf.
- 31 o ddigwyddiadau llenyddol wedi'u cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg yn ein llyfrgelloedd; a
- Prosiect Cwmni Theatr Cat's Paw yn yr Ysgolion Uwchradd lleol yn darparu cynhyrchiad drama 'Break the Silence on Sexual Violence' a chynhyrchiad newydd i fynd i'r afael â bwlio; a
- Darparodd Grŵp Willow raglen "Changing Places" mewn ysgolion er mwyn lleihau trais plentyn i oedolyn.

4. Cynnydd yn erbyn dyletswyddau penodol Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru) 2011

Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer cyflenwi Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor (CCS) wedi'i gynnwys yn Atodiad 1, yn y ffurf ddiwygiedig, a nodir y cynnydd a wnaed mewn perthynas â phob un o'r camau gweithredu.

Ar y cyfan, mae'r adrannau o'r farn bod y CCS ar y trywydd cywir. Fodd bynnag, mae monitro effeithiol y CCS wedi bod yn gyfyngedig oherwydd rhoddwyd mwy o bwyslais ar brosesau ac allbynnau nag ar ganlyniadau. Yn 2014/15 byddir yn ymdrin â hyn mewn sawl ffordd:

- Mae adborth o'r Pwyllgor Craffu ar Gwsmeriaid, Perfformiad ac Adnoddau yn gofyn yn benodol am roi pwyslais ar ganlyniadau o fis Ebrill 2014;
- Bydd canlyniadau cydraddoldeb yn cael eu nodi'n benodol yn y Cynlluniau Gwasanaeth adrannol a'u cysylltu â Chynllun y Cyngor a'r Cynllun Integredig Sengl;
- Cymorth, monitro a gwerthuso parhaus trwy'r Grŵp Gwella Cydraddoldeb; a
- Gwell ymgysylltu â'r cyhoedd ar faterion sy'n gysylltiedig â chydaddoldeb yn cynnwys digwyddiad cyhoeddus a gysylltir â'r cylch cynllunio gwasanaeth.

Disgrifir y cynnydd a wnaed mewn perthynas â monitro cydraddoldeb ymhlith y Gweithwyr yn adran 7 yr adroddiad hwn.

5. Ymgysylltu

Mae adrannau ar draws y Cyngor yn cofnodi ac yn monitro proffil y cwsmeriaid sy'n defnyddio eu gwasanaethau. Nid yw'r broses ar gyfer gwneud y gwaith hwn yn gyson ar draws y Cyngor ac o ganlyniad efallai nad oes digon o ddata i alluogi dadansoddiad cadarn. Mae gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â hyn gan gynnwys datblygu Pecyn Gwaith Ymgynghori i gefnogi cydweithwyr sy'n cynnal gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

<http://www.internal.wrexham.gov.uk/wordpress/wp-content/uploads/2013/03/Consultation-Toolkit.pdf>

Mae nifer o ddogfennau canllawiau wedi'u datblygu gan Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru, ac mae Wreccsam yn aelod ohono, gan gynnwys:

- Deg Awgrym - Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a Sylw Dyledus;
- Deg Awgrym ar gyfer Monitro Cydraddoldeb;

Gellir gweld y dogfennau hyn ar

<http://www.internal.wrexham.gov.uk/wordpress/sam/departments/corporate-and-customer-services/human-resources/equality-diversity-human-rights>

Rydym wedi datblygu Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu 2013-2017 i'n cynorthwyo i wella ein dealltwriaeth o anghenion, safbwyntiau a phrofiadau unigolion, drwy ymgynghori ac ymgysylltu.

<http://www.internal.wrexham.gov.uk/wordpress/wp-content/uploads/2013/03/Consultation-and-Engagement-Strategy.pdf>. Bydd yn darparu mecanwaith allweddol er mwyn deall anghenion ein cwsmeriaid a hysbysu datblygiadau ein gwasanaethau.

Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau data. Mae'r rhain yn cynnwys Swyddfa Ystadegau Gwladol www.neighbourhood.statistics.gov.uk; NOMIS, Infobase Cymru, Stats Cymru, gwaith ymchwil ac adroddiadau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio panel o bobl leol fel un dull o ymgynghori - Panel Ymgynghori Dinasyddion ar-lein Llais y Bobl. Caiff aelodaeth y panel a'r sylwadau a dderbynnir eu dadansoddi yn ôl nodweddion a ddiogelir ac

mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys ym mhob adroddiad. Rydym yn adolygu'r Panel ac amrywiaeth yr aelodau'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn cynrychioli pobl a chymunedau Wrecsam yn well. Yn ystod 2014/15 byddwn yn gweithio gyda phartneriaid Bwrdd Gwasanaethau Lleol i ddatblygu Canolfan Ymgysylltu. Bydd hyn yn darparu dull cydlynol i ymgynghori ac ymgysylltu ym mhob sefydliad partner y BGLI yn Wrecsam.

Mae nifer y bobl sy'n perthyn i rai cymunedau â nodweddion a ddiogelir yn eithaf bychan, ac felly mae'n anodd iawn gwneud dadansoddiad ystadegol. Mae'r Cyngor yn defnyddio gwaith ymchwil cenedlaethol a rhanbarthol er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r materion sy'n gysylltiedig â phobl sydd â nodweddion a ddiogelir. Caiff gwybodaeth ansoddol ei chasglu o'r grwpiau ffocws ac arolygon ac wrth ymgysylltu â grwpiau lleol megis:

- Fforwm Aml-asiantaeth Sipsiwn a Theithwyr Wrecsam
- Grŵp Darllen ac Ysgrifennu Sipsiwn a Theithwyr Wrecsam
- Cymdeithas Ddiwylliannol Islamaidd Wrecsam
- BAWSO
- Canolfan Gymunedol Affricanaidd
- Y Gymdeithas Ffilipino
- Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Fforwm y Byddar Wrecsam
- Fforwm Pobl dros 50 oed Wrecsam
- Senedd yr Ifanc Wrecsam
- Cynghorau Ysgolion
- Grŵp cymunedol Portiwgeaidd
- Grŵp cymunedol Pwylaidd
- Grŵp trawsrywiol Unique
- Tangnefedd (Fforwm Rhyng-ffydd Gogledd-ddwyrain Cymru)
- Partneriaeth Mudo Wrecsam
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam (AVOW) a'r sefydliadau sy'n aelodau

Rydym yn cydnabod hefyd bod ymgysylltu gyda'r staff yn bwysig. Mae'r tîm Adnoddau Dynol yn yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid yn defnyddio Grŵp Polisi Rhithwir i adolygu polisïau newydd a pholisïau diwygiedig. Mae'r Rhwydwaith yn cynnwys staff o'r holl adrannau a meysydd busnes corfforaethol allweddol e.e. cydraddoldeb, iechyd a diogelwch, cyfreithiol a chyllid. Yn ystod 2013-14 adolygwyd y polisïau canlynol:

- Polisi a Gweithdrefn Cydbwyso Gwaith a Bywyd a Gweithio'n Hyblyg 1 Ebrill
- Polisi Costau Adleoli Hydref 2013
- Polisi Gwyliau Blynnyddol Mai 2014
- Lansio hyfforddiant Urddas yn y Gwaith Medi 2013
- Polisi Cam-drin Domestig Chwefror 2014

Mae angen gwaith pellach i ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn adolygu ein cynnydd yn erbyn y CCS. Trwy weithio gydag AVOW a sefydliadau'r sector cyhoeddus eraill yn Wrecsam byddwn yn cydlynu digwyddiad yn yr hydref 2014 i adolygu ein cynnydd a chadarnhau blaenoriaethau cydraddoldeb ar gyfer 2015-16. Bydd hyn yn hysbysu proses gynllunio gwasanaeth y Cyngor, gweithgareddau cydraddoldeb cysylltiedig a chanfod cyfleoedd i gydweithio gyda'n partneriaid.

6. Defnyddio gwybodaeth i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol

Mae adrannau yn defnyddio data gwasanaethau i ddeall proffil eu cwsmeriaid a'u darpar gwsmeriaid. Rydym yn cymharu'r data â data'r cyfrifiad i weld a yw grwpiau sydd â nodweddion a ddiogelir yn cael eu tangynrychioli neu eu gorgynrychioli mewn meysydd gwasanaeth penodol. Mae hyn yn galluogi adrannau i gytuno ar gamau gweithredu a gosod targedau a ddefnyddiwyd i lywio Amcanion Cydraddoldeb y Cyngor.

Mae'r dadansoddiad o gyfraddau boddhad a chwynion hefyd o gymorth i nodi meysydd lle ceir gwahaniaethu posibl a mynd i'r afael yn rhagweithiol â thensiynau yn y gymuned e.e.

- Mae arolygon Gwasanaethau Cwsmer yn cynnwys monitro cydraddoldeb;
- Mae dadansoddiad yr adrannau o gwynion gan gwsmeriaid yn nodi meysydd posibl o wahaniaethu y gellir ymdrin â hwy; a
- Caiff gwybodaeth am densiynau cymunedol posibl ei chasglu a'i hadolygu, ac ymdrinnir â hyn trwy'r grŵp Monitro Tensiynau Cymunedol aml-asiantaeth a gydlynir gan y Cyngor.

Caiff yr wybodaeth a gesglir yn yr Aseidiadau o Effaith ar Gydraddoldeb ei defnyddio i lywio datblygiadau o fewn y gwasanaethau. Mae angen gwneud mwy o waith i rannu'r wybodaeth hon ar draws adrannau.

7. Gweithwyr Cyngor Wreccsam

Mae amrywiaeth yn bwysig ac mae'r Cyngor yn dymuno cadw gweithlu sydd ag amrediad eang o sgiliau, cymwysterau a phrofiadau. Rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod ein holl bolisiau ac arferion cyflogaeth yn trin ein gweithwyr yn deg, yn hyrwyddo canlyniadau cyfartal, yn dileu gwahaniaethu ac yn meithrin perthynas dda â'r gweithwyr. Fel awdurdod cyhoeddus, mae'r Cyngor wedi ymrwmo i gymryd camau i hyrwyddo cyfle cyfartal a dileu gwahaniaethu ac i gasglu gwybodaeth am weithwyr ar sail eu hoedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, tueddfryd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth a phriodas a phartneriaethau sifil. Mae'r term "monitro cydraddoldeb" yn disgrifio'r broses a ddefnyddir i gasglu, storio a dadansoddi'r wybodaeth hon, a ddefnyddir i wella ein gwasanaethau, polisiau a gweithdrefnau.

Mae'r Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyflogaeth 2012/13 yn cynnwys gwybodaeth am y gwahanol nodweddion a ddiogelir y gallwn adrodd amdanynt a pholisiau ac arferion eraill sydd wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r rhaglen gydraddoldeb yn y Cyngor. Mae'r data yn ymwneud ag unigolion a gyflogir yn uniongyrchol gan y Cyngor. Nid yw'r data yn cynnwys y rheini sy'n gweithio gyda ni ond sy'n cael eu cyflogi yn achlysurol, dros dro neu drwy asiantaethau.

Bydd y Cyngor yn adrodd ar y canlynol, lle bo'r systemau cyfredol yn caniatáu hynny;

- Gweithwyr y Cyngor â nodweddion a ddiogelir yn flynyddol ar 31 Mawrth
- Gweithwyr gwrywaidd a benywaidd, wedi'u rhannu yn ôl:
 - Swydd
 - Graddfa
 - Tâl
 - Math o Gontract
 - Patrwm Gweithio
- Ymgeiswyr ar gyfer swyddi'r Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf yn ôl nodweddion a ddiogelir.
- Staff sydd wedi gwneud cais i newid swydd o fewn y Cyngor, y nifer a fu'n llwyddiannus a nifer a fu'n aflwyddiannus yn ôl nodweddion a ddiogelir;
- Staff sydd wedi gwneud cais am hyfforddiant a'r nifer a lwyddodd i gyflwyno cais llwyddiannus yn ôl nodweddion a ddiogelir;
- Staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant yn ôl nodweddion a ddiogelir;
- Staff sy'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno fel achwynydd neu fel person y gwnaed cwyn yn eu

herbyn yn ôl nodweddion a ddiogelir;

- Staff sy'n destun gweithdrefnau disgyblu yn ôl nodweddion a ddiogelir; a
- Staff sydd wedi gadael cyflogaeth y Cyngor yn ôl nodweddion a ddiogelir.

Mae'r adroddiad yn cynnwys y cyfnod 1 Ebrill 2012 tan 31 Mawrth 2013.

http://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/equality/hr/equalities_data_report.pdf

8. Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb (AEG)

Mae proses AEG ddiwygiedig wedi'i datblygu ar y cyd gyda'r Grŵp Gwella Cydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys offer sgrinio ac asesu ar y cyd sydd ar gael ar-lein ac ar bapur. Mae nodweddion allweddol yn cynnwys:

- Rhifau adnabod AEG sydd hefyd yn cyfeirio at adran yr awdur;
- Mae dylunio sythweledol wedi dileu'r angen i ddarparu hyfforddiant ynglŷn â chwblhau'r ffurflen.
- Mae'r fformat yn cynnwys nodi effeithiau cadarnhaol ynghyd â'r rhai negyddol posibl;
- Mae'r fformat yn galluogi dolenni cyswllt electronig i ymgynghoriad perthnasol a dogfennau eraill;
- Proses adolygu cyfannol i ddiweddarau'r AEGau ar ôl gweithredu'r penderfyniadau; a
- gall yr Aelodau Etholedig gael mynediad at yr AEGau yn electronig.

Cwblhawyd dros 80 Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn ystod y 12 mis diwethaf.

Mae enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- Yr holl gynigion cyllidebol ar gyfer 2014 / 15;
- Polisi Gwyliau Blynyddol;
- Adolygu Polisi Dyraniadau Tai;
- Y posibilrwydd y bydd Canolfan Hamdden Plas Madoc yn cau;
- Darparu Hyfforddiant Gofal Cymdeithasol yn 2014/15;

Yn ystod 2014-15 byddwn yn adolygu templed yr AEG ac yn ei ddiwygio fel bo'r angen.

Grŵp Ail-lunio Gwasanaethau (Cydraddoldeb):

I gefnogi ail-lunio gwasanaethau'r cyngor fel rhan o'r broses arbedion cyllidebol ar gyfer 2013-14 datblygwyd Grŵp Ail-lunio Gwasanaethau am gyfnod penodol i gefnogi swyddogion oedd yn cyflawni AEGau yn ymwneud â chyllidebau. Adolygwyd y Grŵp ym mis Mawrth 2014 a chytunwyd y byddai'n parhau. Mae'r grŵp yn darparu cefnogaeth i'r swyddogion sy'n cwblhau AEG ac yn annog cysylltiadau agosach rhwng yr adrannau â'r unigolion a chymunedau gydag nodweddion a ddiogelir.

Mae aelodaeth y grŵp yn cynnwys cydweithwyr mewnol ac aelodau'r cyhoedd sy'n gallu darparu sylwadau ar gynigion drafft o safbwynt nodwedd penodol a ddiogelir; mae dirprwy ar gyfer pob nodwedd ac ar gyfer Gofalwyr, y Gymraeg a Thlodi. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn fisol a byddant yn darparu cefnogaeth ac adborth i'r swyddogion ar gam sgrinio eu AEG. Y bwriad yw:

- Sicrhau bod materion allweddol wedi'u nodi ar gyfer nodweddion a ddiogelir perthnasol;
- Nodi unrhyw wahaniaethu a allai ddigwydd;
- Nodi unrhyw gamau lliniaru posibl; ac
- Awgrymu sianelau ymgynghori lleol lle bo'n briodol.

- Nid oes gan y grŵp fandad swyddogol ac mae'r swyddogion yn mynychu'n wirfoddol.

Yn ystod 2013-14 darparodd y Grŵp gefnogaeth mewn perthynas â 15 cynnig drafft. Roedd adborth gan y swyddogion oedd yn mynychu yn gadarnhaol. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r grŵp i sicrhau ei gynladwyedd hirdymor.

Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb – sicrwydd ansawdd:

Fel rhan o'r broses sicrwydd ansawdd mewnol mae aelodau'r Grŵp Gwella Cydraddoldeb [GGC] wedi datblygu meini prawf asesu ansawdd mewnol ar gyfer Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb. Bydd hyn yn cael ei weithredu yn ystod 2014-15.

Bob blwyddyn bydd y GGC yn adolygu detholiad o Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd yn eu hadran yn erbyn y meini prawf. Cynhelir adolygiadau ym mis Mai fel bod y canfyddiadau'n llywio adroddiad Cydraddoldeb blynyddol y Cyngor ac ym mis Tachwedd i lywio Cynllunio Gwasanaethau a'r Datganiad Llywodraeth Blynyddol. Fel rhan o'r broses bydd aelodau'r GGC yn ystyried a herio'r asesiadau. Bydd adroddiad trosolwg yn cael ei baratoi ar gyfer Penaethiaid Adrannau yn amlinellu arferion da a meysydd i'w gwella.

Bydd y meini prawf a'r broses leol yn cael eu hadolygu ym mis Rhagfyr 2014 gan gytuno ar ddiwygiadau ar gyfer 2015 ymlaen.

Mae canllawiau'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) yn glŷn ag AEG yn nodi dylai fod gan sefydliadau cyhoeddus systemau mewnol i sicrhau bod AEGau yn cael eu cwblhau, o ansawdd digonol a bod mecanweithiau o'r fath yn gymesur â maint ac adnoddau'r awdurdod cyhoeddus, ac yn cael eu cefnogi ar lefelau uwch.

Mae'r Grŵp Gwella Cydraddoldeb sy'n cael ei arwain gan swyddogion wedi adolygu cynnydd yn erbyn canllawiau EHRC:

Canllawiau EHRC	Gweithdrefn CBSW – sefyllfa gyfredol
Canfod unigolyn, uned neu dîm perthnasol i gefnogi gwaith yr awdurdod mewn perthynas â chydraddoldeb (ac yr AEG yn benodol).	Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a'r Drefn Lywodraethol Tîm Amrywiaeth Cymunedol Grŵp Gwella Cydraddoldeb Timau Uwch Reolwyr Adrannol
Swyddog cydraddoldeb penodedig i gydlynu a darparu cyngor (neu aelod o staff cyfredol sydd eisoes â chyfrifoldeb ar gyfer gweithgarwch cydlynu).	Rheolwr/ Swyddog Amrywiaeth Cymunedol
Cyflwyno eitem sefydlog ar raglen y bwrdd ar gyfer AEG a'u dyletswyddau ehangach	Adroddiad blynyddol y pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a'r Drefn Lywodraethol Adborth i Dimau Uwch Reolwyr Adrannol
Cynnull gweithgor mewnol, wedi'i gadeirio gan aelod o'r uwch dîm rheoli, gyda chynrychiolaeth o bob adran neu gyfarwyddiaeth i fonitro cynnydd y sefydliad cyfan o ran AEG a pherfformiad dyletswyddau ehangach.	Grŵp Gwella Cydraddoldeb
Cyflawni gwiriadau ar enghreifftiau o AEG er mwyn profi ansawdd yr asesiadau.	Mae gweithdrefn Sicrwydd Ansawdd wedi'i datblygu gyda chyfarwyddyd gan y GGC

	<p>a'r Adain Archwilio Mewnol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Aelodau'r GGC i gyflawni asesiadau dwywaith y flwyddyn; • Cynnal adolygiadau ym mis Mai [i lywio'r adroddiad Cydraddoldeb blynyddol] ac ym mis Tachwedd [i lywio Cynllunio Gwasanaethau a'r Datganiad Llywodraeth Blynyddol]. • GGC i ystyried a herio asesiadau; paratoi adroddiadau trosolwg ar gyfer Penaethiaid Adran; a • Meini prawf a'r broses yn cael ei hadolygu ym mis Rhagfyr 2014 gan gytuno ar ddiwygiadau ar gyfer 2015 ymlaen.
Addasu templedi AEG i gynnwys adran lofnodi ar ôl cwblhau	AEG ar-lein yn gysylltiedig â'r adran yn yr awdurdod.
Sicrhau bod y polisïau a'r AEG perthnasol yn cael eu llofnodi gan arweinwyr cydraddoldeb ac aelod o'r uwch reolwyr.	Awdurdod dirprwyol gan Benaethiaid Adran i swyddogion sy'n cwblhau'r AEG unigol. Datganiadau Sicrwydd Mewnol.
Cyflwyno panel 'cyfeillion beirniadol' o arbenigwyr lefel uwch lleol i ddarparu her gadarn i'r swyddogion mewn perthynas â'r AEGau.	Mae Grŵp Ail-Lunio Gwasanaethau'n cyflawni rhan o'r ddyletswydd hon ond mae angen gwaith pellach i ddatblygu'r grŵp.

Yn ystod 2014-15 byddwn yn cynnal adolygiadau sicrwydd ansawdd ac yn darparu adborth i adrannau i hyrwyddo diwylliant o welliant parhaus.

Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb – Cydymffurfiaeth

Cyfrifoldeb y Penaethiaid Adrannau yw cynnal AEGau a dylent osod systemau i sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni. Gan eu bod yn elfen allweddol o'r fframwaith llywodraethu, bydd trefniadau Cydraddoldeb y Cyngor yn destun archwiliadau rheolaidd, ond nid yn flynyddol o reidrwydd, fydd yn darparu sicrwydd annibynnol ar effeithiolrwydd y rheoliadau a osodwyd gan y Pennaeth Adran. Efallai y bydd archwiliadau o'r fath yn cynnwys gwiriadau cydymffurfiaeth ar AEGau, ond bydd hyn yn ddibynnol ar asesiad risg yr adran Archwilio Mewnol ar ddechrau'r archwiliad. Bydd canlyniadau'r archwiliad yn cael eu hadrodd i'r Pennaeth Adran, yr Uwch Dîm Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio.

Mae'r Adain Archwilio Mewnol yn darparu canllawiau i gynorthwyo'r cyngor a'r Penaethiaid Adran i sicrhau bod rheoliadau mewnol effeithiol ar waith mewn perthynas â chydaddoldeb ac amrywiaeth.

Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb Cynigion Cyllideb 2014-15

Mae'r Cyngor yn awyddus i sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'u cynnwys yn y broses o bennu cyllidebau er mwyn lleihau unrhyw effaith andwyol ar wasanaethau rheng-flaen, pobl fregus a phobl sydd â nodweddion a ddiogelir.

Cynhelir asesiad sgrinio cydraddoldeb cychwynnol o holl gynigon y cyllidebau, yn ogystal ag asesiad PESTLE (goblygiadau Corfforol, Economaidd, Cymdeithasol, Technolegol, Cyfreithiol ac

Amgylcheddol posibl). Yn yr achosion hynny lle nodir effaith negyddol bosibl ar gydraddoldeb, cynhelir Aseidiadau llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG). Fel rhan o'r broses AEG gofynnwyd i Benaethiaid Adrannau nodi pa gamau y byddant yn eu cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effaith negyddol ar gydraddoldeb a allai godi wrth roi'r cynnig ar waith.

Oherwydd y gwaith sylweddol sy'n mynd rhagddo i ail-lunio gwasanaethau o ganlyniad i doriadau cyllidebol ar draws y sector cyhoeddus, mae'r Cyngor wedi ategu ei ymrwymiad i roi blaenoriaeth i bobl diamddiffyn. Felly, cafodd cyllideb 2014/15 ei rhoi ger bron ymgynghoriad cyhoeddus trwy gyfrwng arolygon ar-lein a chopi caled. Cafodd yr wybodaeth a dderbyniwyd yn ystod y broses hon ei defnyddio i lywio cynigion y gyllideb a chynorthwyo'r Cyngor i wrando ar ein dinasyddion er mwyn targedu adnoddau yn fwy effeithiol.

Cwblhawyd Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer holl gynigion cyllideb 2014-15 ac maent wedi'u cyhoeddi ar wefan y cyngor.

9. Hyfforddiant a Chodi Ymwybyddiaeth

Cydnabyddir bod angen gwaith pellach i sicrhau bod holl aelodau staff y cyngor yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Mae hyfforddiant penodol hefyd wedi'i roi mewn perthynas â'r:

- Aseidiadau o Effaith ar Gydraddoldeb i wella dealltwriaeth o bwysigrwydd a pherthnasedd aseidiadau effaith;
- Hyfforddiant gwrth-droseddau casineb ar System Adrodd Trydydd Parti'r Cyngor er mwyn cynyddu nifer yr achosion a gaiff eu hadrodd a gwella'r cymorth i ddiodefwr;
- Hyfforddiant monitro tensiynau yn y gymuned i roi mwy o gymorth cydlynol i gymunedau ac i ymdrin â thensiynau cyn iddynt waethygu;
- Hyfforddiant 'Dim Cronfeydd Cyhoeddus ar Gael' (NRPF) i staff yr Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant a Thai i wella dealltwriaeth o'r broses asesu NRPF ac arwain at ganlyniadau priodol i bobl na allant o bosibl gael cymorth gan gronfeydd cyhoeddus; a
- Hyfforddiant ymwybyddiaeth o Gam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol gan gynnwys cyflwyniad ynglŷn â'r materion y mae diodefwr o gymunedau Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig yn eu hwynebu.

Yn ogystal â'r hyfforddiant hwn, mae amrywiaeth a chydraddoldeb hefyd wedi'u cynnwys yn:

- Hyfforddiant ymsefydlu corfforaethol pob gweithiwr newydd;
- Gweithdai ymsefydlu pob Aelod Etholedig newydd; a
- Hyfforddiant codi ymwybyddiaeth am gydraddoldeb blynyddol a gyflwynir i bob Aelod Etholedig o fewn y rhaglen Datblygu Aelodau blynyddol.

Mae'r Adrannau Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Phlant wedi diwygio eu cynllun hyfforddiant.

- Mae'n ofynnol i holl staff a rheolwyr Gofal Cymdeithasol sy'n ymgymryd â chymwysterau arddangos dealltwriaeth o faterion cydraddoldeb;
- Mae'r gweithdy hanner diwrnod, a ddatblygwyd ar gyfer rheolwyr cofrestredig 'Hyrwyddo Cydraddoldeb ac Urddas ar lefel Ymarferol / Rheoli Gwasanaethau' yn parhau i gael ei ddarparu;
- Cwrs Hyrwyddo Cydraddoldeb ac Urddas mewn Gofal; ar gyfer staff gofal cymdeithasol a mynychodd tua 91 yn 2013/14. Mae hyfforddiant pellach yn cael ei drefnu ar gyfer 2014/15.

- Cefnogwyd Cynhadledd Urddas mewn Dementia Gogledd Cymru gan Gyngor Wrecsam ym mis Chwefror 2014. Bwriad hyn oedd codi ymwybyddiaeth a rhannu arferion gorau o ran cefnogi pobl â dementia a'u gofalwyr a'u teuluoedd;
- Mae gan Wrecsam a Sir y Fflint Rwydwaith Cefnogwyr Urddas mewn Gofal. Maent yn cyfarfod bob 2-3 mis i drafod Urddas mewn Gofal, rhannu pryderon ac enghreifftiau o arferion da.
- Mwy na Geiriau – gweithdy Cymraeg a gynhaliwyd mewn partneriaeth â Chyngor Sir y Fflint. Roedd y rhai yn bresennol yn cynnwys rheolwyr a chyflogwyr o Adran Gofal Cymdeithasol y cyngor a darparwyr annibynnol ledled y sir. Nod yr hyfforddiant oedd mynd i'r afael ag arwyddocâd fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg ym maes gofal cymdeithasol. ac
- Mae Cynllun Hyfforddi Gofal Cymdeithasol Plant ac Oedolion 2013/14 yn cynnwys hyfforddiant gogyfer â materion cydraddoldeb e.e. mae hyfforddiant Dementia, Diogelu a Gwarchod Oedolion yn cynnwys ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae digwyddiadau hyfforddiant eraill megis Diogelu Oedolion yn cyfeirio at gydraddoldeb.

Caiff perfformiad unigol aelodau staff ei fonitro trwy'r broses Adolygiad Perfformiad a Datblygiad Gyrfa (PCRD). Caiff amcanion yn ymwneud â'r gwaith eu gosod ar gyfer pob aelod staff a'u hadolygu bob chwe mis. Mae'n ofynnol i gynnwys amcanion cydraddoldeb yn y templed PCRD er mwyn symud ymlaen â'n hamcanion cydraddoldeb corfforaethol a nodi anghenion hyfforddiant. Mae angen mwy o waith monitro a dadansoddi i werthuso effeithiolrwydd y dull hwn o weithredu.

Er bod hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth a sesiynau codi ymwybyddiaeth wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol at sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol, rydym yn cydnabod bod angen mwy o waith i hyrwyddo gwell dealltwriaeth o'r dyletswyddau ar draws yr holl grwpiau staff. I gefnogi'r dull hwn mae nifer o becynnau e-ddysgu wedi'u datblygu:

- Deddf Cydraddoldeb 2010;
- Cydraddoldeb yn y gweithle;
- Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb;
- Mynd i'r Afael a Throsedd Casineb;
- Monitro Tensiwn Cymunedol; a
- Hyrwyddo Perthnasau Da.

Mae'r rhain wedi'u dylunio i adlewyrchu dyletswyddau cydraddoldeb statudol y cyngor ac maent ar gael i'r holl staff sydd â mynediad at gyfrifiadur. Mae modiwl hyfforddiant PowerPoint ynglŷn â chyfrifoldebau cydraddoldeb wedi'i ddatblygu i reolwyr ei ddefnyddio gyda staff peripatetig e.e. Strydwedd. Mae hyn yn cael ei dreialu gyda Strydwedd ar hyn o bryd. Ar ôl ei gadarnhau bydd yn cael ei ddiwygio fel bod modd ei ddefnyddio gyda grwpiau staff gwahanol e.e. staff Gofal yn y Cartref a staff Masnach Tai.

Er mwyn cynorthwyo gyda phroses Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb rydym wedi datblygu cyfres o daflenni data 'Dyma Wrecsam' mewn cydweithrediad â'r GGC a thîm Gwella Perfformiad a Phartneriaethau. Mae un daflen ar gyfer pob nodwedd a ddiogelir ynghyd â Gofalwyr, y Gymraeg a Thlodi gan fod y rhain yn flaenoriaethau corfforaethol. Efallai y bydd taflenni data Dyma Wrecsam yn cael eu defnyddio mewn cyfarfodydd tîm i gefnogi trafodaeth ynglŷn ag amrywiaeth lleol mewn perthynas â darpariaeth gwasanaeth. Dros amser bydd hyn yn cefnogi proses Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb.

Wrth fonitro faint o bobl sy'n defnyddio hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ôl maes gwasanaeth byddwn yn cael gwell dealltwriaeth o gyfranogiad a lefelau o ddealltwriaeth a bydd

modd cynnal asesiad o anghenion hyfforddiant pellach. Yn ystod 2014-15 byddwn hefyd yn datblygu adnodd hyfforddiant i gynorthwyo cydweithwyr i ddadansoddi data cydraddoldeb.

10. Caffael

Mae manylion ynglŷn â sut y gwreiddiwyd cydraddoldeb yn y broses gaffael wedi'u cynnwys yn y CCS. Yn fyr, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r model caffael cyhoeddus 'SQUID' a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru (Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr). Nod y dull hwn o weithredu yw cynnig nifer o fanteision yn ymwneud â hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth trwy holi nifer o gwestiynau allweddol:

1. A gafwyd enghraifft o unrhyw un o'r canlynol yn eich sefydliad yn ystod y tair blynedd diwethaf - Dyfarniad o gamwahaniaethu anghyfreithlon gan Dribiwnlys Cyflogaeth, Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth neu unrhyw lys neu dribiwnlys arall (neu achosion cymharol)? Os atebwyd 'do', rhowch grynodedd o'r casgliad neu ddyfarniad ac esboniwch pa gamau a gymerwyd gennych i atal sefyllfa debyg yn y dyfodol.
2. Os ydych yn defnyddio is-gontractiwr(wyr), pa brosesau sydd ar waith gennych i wirio a oes unrhyw un o'r sefyllfaoedd uchod yn berthnasol iddynt?
3. A yw eich staff sydd â chyfrifoldebau rheoli yn derbyn hyfforddiant ym maes cydraddoldeb?
4. A yw eich staff sydd â chyfrifoldebau cyflenwi gwasanaethau yn derbyn hyfforddiant ym maes cydraddoldeb?

Mae Cod Ymarfer a Phecyn Cymorth Caffael y Cyngor yn rhoi arweiniad ar fonitro cydraddoldeb a nodi cyfrifoldebau contract perthnasol. Yn ogystal, mae manylebau contractau a chontractau yn cynnwys cymalau cydraddoldeb penodol yn ymwneud ag amcanion cydraddoldeb a dyletswyddau cyfreithiol y Cyngor, yn ôl yr hyn sy'n berthnasol ac yn gymesur i'r contract. Mae angen gwneud mwy o waith i werthuso effeithiolrwydd y dull hwn o weithredu.

Yn ystod 2014-15 byddwn yn ceisio canfod cyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb drwy'r broses caffael.

Casgliad a phrif gamau gweithredu ar gyfer 2014-15

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cynnydd a wnaed hyd yma wrth weithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor (CCS) ac wrth gyflawni ei ddyletswyddau cydraddoldeb penodol a chyffredinol.

Er y gwnaethpwyd cynnydd da, mae llawer o waith i'w gwblhau. Ynghyd â'r amcanion a nodir yn y CCS ar gyfer 2014-15 byddwn hefyd yn:

Cefnogi datblygiad Strategaeth Ymgysylltu ledled y Fwrdeistref Sirol i gefnogi gweithrediad y Cynllun Integredig Sengl;

- Datblygu Canolfan Ymgysylltu i gydlyn a chefnogi gweithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori ar draws y Fwrdeistref Sirol;
- Adolygu templed AEG a'i ddiwygio fel bo'r angen;
- Cyflawni adolygiad Sicrwydd Ansawdd AEG pellach ym mis Tachwedd 2014 i lywio proses Cynllunio Gwasanaeth a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol;
- Adolygu meini prawf Sicrwydd Ansawdd AEG a'u diwygio fel bo'r angen;
- Gweithio gydag AVOW a phartneriaid y sector cyhoeddus i ddatblygu taflenni data Dyma Wrecsam er mwyn i gydweithwyr yn y cyngor eu defnyddio, ac ar gyfer partneriaid y sector gwirfoddol, sector cymunedol a'r sector cyhoeddus;

- Parhau i ddatblygu aelodaeth y Grŵp Ail-Lunio Gwasanaethau i sicrhau ei gynladwyedd;
- Datblygu Grŵp Ail-Lunio Gwasanaethau i ddarparu adborth pellach wrth i AEGau gael eu cwblhau;
- Datblygu pecyn 'Hyfforddi'r Hyfforddwr' ynglŷn ag amrywiaeth lleol er mwyn i'r trydydd sector ei ddefnyddio;
- Datblygu adnodd hyfforddiant i gynorthwyo cydweithwyr i ddadansoddi data cydraddoldeb;
- Datblygu gweithdai Aelodau Etholedig gyda'r Gwasanaethau Aelodau;
- Gwella cysondeb dull adrodd y CCS;
- Parhau i ddatblygu targed a chanlyniadau CCS y gellir eu mesur; a
- Cheisio canfod cyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb drwy'r broses caffael.

Diolch yn fawr am ddarllen Adroddiad Blynyddol ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012-13.

Rydym yn croesawu eich sylwadau ac awgrymiadau ar gyfer ein hadroddiad blynyddol. Cysylltwch â ni:

Ffôn: 01978 298736

E-bost: onewrexham@wrexham.gov.uk

Atodiadau

Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol

Gwybodaeth am Gydraddoldeb

Rhestr Termau

Cynllun gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol Wreccsam 2012-16: Yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd:

Credwn ein bod wedi gwneud cynnydd da yn ôl pob un o'r amcanion cydraddoldeb. Mae'r tabl isod yn rhoi rhai enghreifftiau o'r modd y cyflawnwyd hyn. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod yr hunanasesiad hwn yn gyfyngedig gan nad yw'n cynnwys asesiad cadarn gan bobl Wreccsam. Byddwn yn ymdrin â hyn yn ystod 2014-15 trwy wella ein hymgysylltiad â'r gymuned ar faterion yn gysylltiedig â chydaddoldeb, gan gynnwys cynnal digwyddiad cyhoeddus. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygu canlyniadau cydraddoldeb mesuradwy y gellir eu cynnwys yn adroddiadau'r dyfodol.

Allwedd:

AA = Adran Amgylchedd

ADE = Adran Asedau a Datblygu Economaidd

AG = Adran Gyllid

ATDC = Adran Tai a Diogelwch y Cyhoedd

GCC = Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid

GCO = Gofal Cymdeithasol i Oedolion (gwybodaeth drafft mewn italig wrth aros am gymeradwyaeth yr Adroddiad Blynyddol gan Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol).

GGC = Y Grŵp Gwella Cydraddoldeb a arweinir gan swyddog

LICD = Adran Lles Cymunedol a Datblygu

PGPh = Tîm Perfformiad, Gwella a Phartneriaethau

PPhl = Gofal Cymdeithasol Plant a Phobl Ifanc (gwybodaeth drafft mewn italig wrth aros am gymeradwyaeth yr Adroddiad Blynyddol gan Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol).

Themâu Cynllun y Cyngor	Canlyniadau blaenoriaeth Cynllun y Cyngor	Amcanion Cydraddoldeb	Engbreiffiau o gyfraniadau adrannol y Cynllun Gweithredu CCS 2012-13
<p>Economi</p>	<p>Mae pobl eisiau byw, gweithio, dysgu a buddsoddi yma</p> <p>Mae busnesau yn gallu sefydlu a thyfu yma</p> <p>Mae pobl yn gallu ffynnu fel unigolion yn eu cymunedau</p>	<p>1. Lleihau anghydraddoldeb mewn cyflogaeth a thâl ar gyfer rhyw a nodweddion eraill a ddiogelir a chynllunio gweithredoedd fel bo'n briodol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor yn cyhoeddi gwybodaeth monitro cydraddoldeb cyflogaeth fel sy'n hysbys ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Mae'r adroddiad blynyddol yn cynnwys gwybodaeth cyflogaeth penodol gogyfer rhyw a chyflog. (GCC) • http://www.wrexham.gov.uk/top_navigation/equality.htm • Cyhoeddi'r camau gweithredu y mae'r Cyngor yn eu cymryd i fynd i'r afael â unrhyw fylchau gwybodaeth. Lle nad oes gan y Cyngor ddigon o wybodaeth, mae cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu i fynd i'r afael â bylchau data. Mynychodd cynrychiolydd CBSW gyfarfod Cymru gyfan ym mis Hydref 2013 i sicrhau cysondeb data cydraddoldeb a chyhoeddiad ledled Cynghorau Cymru. Diffiniadau / paramedrau clir wedi'u cytuno. Mae'r holl ddulliau gohebu yn cael eu defnyddio er mwyn sicrhau bod preswylwyr yn derbyn gwybodaeth ynglŷn â sut y byddwn yn cyflawni hyn. (GCC) • Darparu cyngor cyfreithiol i adrannau ynglŷn â gofynion statudol penodol ar gais (GCC) • Datblygu mesuryddion i asesu cynnydd yn incwm y cartref mewn 30% o'r cymunedau mwyaf difreintiedig o 2014/15 ymlaen (ADE) • Lleihau anweithgarwch economaidd i 12.2% sy'n is na chyfartaledd Cymru o 13.7% (ADE). • Creu 162 o swyddi yn erbyn targed o 35 (ADE). • Parhau i gynnal rhwydwaith ffyrdd y Fwrdeistref Sirol a chyflawni gwelliannau yn unol â'r adnoddau / galw. (AA) • Monitro tir fel rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol i lywio dyraniadau'r dyfodol gan gynnwys er dibenion busnes. (LICD) • Llinell Busnes yn Llyfrgell Wrecsam yn annog pobl i fod yn entrepreneuriaid a dechrau busnes. Wedi derbyn 3,711 o ymholiadau (LICD) • Mynediad TG am ddim mewn llyfrgelloedd ar gyfer rhai sy'n chwilio am swyddi (LICD) • Mynediad TG am ddim mewn llyfrgelloedd i ddysgu ar-lein trwy'r Open University (LICD). • Mynediad hygyrch am ddim i adnoddau ar-lein llyfrgelloedd megis e-lyfrau, e-lyfrau llafar ac amrywiaeth o e-gylchgronau i'w lawrlwytho am ddim trwy Zinio (LICD) o 2013/14.

Pobl	<p>Mae gan blant a phobl ifanc ddyheadau, ac maent yn gallu dysgu a gwireddu eu potensial.</p> <p>Mae plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu Mae pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel</p>	<p>2. Lleihau anghydraddoldebau o ran lechyd</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Dull gydlynol amlasiantaeth i fynd i'r afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Niwsans statudol wedi'u lleihau mewn 3 mis – 97.1% (PGPh, ATDC). • Datblygu dull newydd o ddatblygu Parthau Rheoli Galw Heb Wahoddiad. Ceisio cyllid i barhau â'r cynllun yn 2014/15 (PGPh, ATDC). • Gweithio i wella gradd asesu risg eiddo am werthu alcohol i bobl dan 18 oed (ar gyfartaledd) (PGPh, ATDC). • Datblygu a lansio strategaeth gorfodi i fynd i'r afael â chyflenwad ac argaeledd tybaco anghyfreithlon (PGPh, ATDC). • Lansio cynllun Braf Bob Nos fel rhan o'r gwaith tuag at Wobr y Faner Borffor (PGPh, ATDC). • Cydlynu datblygiad Strategaeth Lleihau niwed alcohol (PGPh). • Lleihau nifer cyfartalog y diwrnodau calendr a gymerwyd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl i 217 diwrnod [targed 248 diwrnod] (ATDC) • Darparu cynllun Warden Ymweld – 130 o gleientiaid wedi cofrestru [targed 149] (ATDC). • Darparu dosbarthiadau i alluogi unigolion gyda nodweddion a ddiogelir i wneud dewisiadau iach e.e. Cerdyn Heini 50+, Dosbarthiadau Cryfder a Chytbwysedd, Cynllun Atgyfeirio Ymarfer Corff Meddyg Teulu, cynllun 5x50 pobl ifanc, Campau'r Ddraig. (LICD) • Yr holl ysgolion yn cymryd rhan mewn Cynllun Ysgol Iach a 23 o ysgolion wedi cyflawni thema iechyd meddwl sy'n cynnwys gwaith yn ymwneud â gwrth-fwlio (PPhl)
	<p>Mae pawb yn gallu gwneud dewisiadau iach</p> <p>Mae holl bobl hŷn diamddiffyn yn ddiogel, â'r iechyd gorau posibl, annibyniaeth a lles</p> <p>Mae'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn cael ei hybu a'i chefnogi</p>	<p>3. Lleihau canlyniadau anghyfartal ym maes Addysg i wneud y mwyaf posibl i wireddu potensial unigolion</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu gwasanaethau cefnogaeth TGCh i ysgolion a rheoli unrhyw brosiectau a systemau isadeiledd TGCh cysylltiedig ar eu rhan er mwyn sicrhau fod gan Wreccsam amgylchedd TGCh modern ar gyfer addysg. (GCC) • Grwpiau penodol o ddysgwyr (e.e. y rhai gydag anghenion dysgu ychwanegol, bechgyn a merched, disgyblion FSM, disgyblion Saesneg fel iaith ychwanegol, plant sy'n derbyn gofal) wedi cyflawni cynnydd yn unol â'u canlyniadau disgwylidig [adroddiad Pwyllgor Craffu HLL/03/14] (LLL) • Mwy o bobl ifanc yn gadael addysg llawn amser gyda chymhwyster cydnabyddedig [adroddiad Pwyllgor Craffu HLL/03/14] (LLL) • Nifer y bobl ifanc sy'n gadael addysg llawn amser heb gymhwyster cydnabyddedig wedi lleihau o 1.1% yn 2012 i 0.5% yn 2013 (LLL). • Mwy o blant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i fynd i addysg bellach, cyflogaeth a hyfforddiant. (LLL) • Gwelliant cynaliadwy o ran perfformiad disgyblion Blwyddyn 11 sy'n NEET

			<p>(ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) h.y. 3.2% yn 2012 a 2013 (LLL)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mwy o blant a phobl ifanc yn aros mewn addysg llawn amser. Canran y disgyblion Blwyddyn 11 sy'n aros mewn addysg llawn amser wedi cynyddu i 84.3% yn 2013 o gymharu â 82.3% yn 2012 (LLL) • Darparu cynllun Llyfrau ar gyfer Babanod i hyrwyddo llythrennedd y blynyddoedd cynnar (!)% wedi'i dderbyn) (LICD) • Dosbarthu pecynnau Llyfrau ar gyfer Babanod 2 oed i hyrwyddo llythrennedd y blynyddoedd cynnar (98% wedi'i dderbyn) (LICD) • Digwyddiadau Llythrennedd Plant i hyrwyddo llythrennedd blynyddoedd cynnar – 371 sesiwn. • 5,089 o gyfranogwyr a 476 o ymweliadau ysgolion i lyfrgelloedd ar gyfer 14,824 o ddisgyblion (LICD) • Grŵp dysgu teuluol wedi'i sefydlu yn llyfrgell Cefn Mawr (LICD). • Gwasanaeth Cyswllt Cartref – mynd â gwasanaeth llyfrgell i unigolion nad ydynt yn gallu mynd i lyfrgelloedd, ymweld ag unigolion yn eu cartrefi -2,446 o ymweliadau cartref (LICD). • Grwpiau'n cyfarfod mewn llyfrgelloedd – grwpiau darllen, grwpiau Gweu a Sgwrsio a grwpiau crefft eraill – cyfle ar gyfer integreiddio cymdeithasol, 205 cyfarfod gyda 1,584 o bobl yn bresennol. (LICD) • Casgliad gofalgwyr ym mhob llyfrgell – yn cael ei hyrwyddo gan staff yn Ffair y Yrfaol (GCO, LICD) • Casgliad iechyd a lles ar gael ym mhob llyfrgell (GCO, PGPh, LICD) • Mae stoc llyfrau ffeithiol i oedolion mewn llyfrgelloedd yn cynnwys llyfrau diweddar ynglŷn â gyrfaoedd, iechyd, ymarfer corff, diet iach ac ati (LICD) • Llyfrgelloedd yn cynnwys llyfrau llafar fel rhan o'u casgliad Pwyleg, mynediad am ddim a chefnogaeth ar gyfer grwpiau darllenwyr gan gynnwys Age Concern, llyfrau print bras (LICD) • Llyfrgelloedd yn darparu amrywiaeth o ddeunyddiau i gefnogi profion dinasyddiaeth 'Bywyd yn y DU' (LICD) • Mae gan llyfrgell Wrecsam 'Synergy Magnifying Reader' i gynorthwyo darllenwyr gydag nam ar eu golwg. (LICD) • Mynediad TG am ddim mewn llyfrgelloedd ar gyfer rhai sy'n chwilio am swyddi (LICD) • Mynediad TG am ddim mewn llyfrgelloedd i ddysgu ar-lein trwy'r Open University (LICD).
--	--	--	---

			<ul style="list-style-type: none"> • Mynediad hygyrch am ddim i adnoddau ar-lein llyfrgelloedd megis e-lyfrau, e-lyfrau llafar ac amrywiaeth e-gylchgronau i'w lawrlwytho am ddim trwy Zinio (LICD) o 2013/14. • Cefnogodd llyfrgelloedd Wrecsam 82,056 o ddefnyddwyr cyfrifiaduron sy'n oedolion a 15,868 defnyddwyr cyfrifiaduron iau (LICD) • Datblygodd llyfrgelloedd Wrecsam categori benthyca newydd ar gyfer pobl ddigartref, gan eu galluogi i ymuno â'r gwasanaeth llyfrgell gydag ychydig iawn o wybodaeth adnabod (LICD)
		4. Lleihau anghydraddoldeb mewn diogelwch personol	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu canllawiau pellach i gynorthwyo ysgolion i ddatblygu arferion gwrthfwlio. (LLL) • Gwella cofnodion a monitro achosion o fwlio mewn ysgolion.(LLL) • Mae'r holl ysgolion wedi derbyn templed holiaduron a gwybodaeth ynglŷn â sut i arolygu eu plant ar y mater o fwlio fel rhan o ymgyrch gwrthfwlio'r adran. (LLL) • Datblygwyd prosiect peilot yn Ysgol Bryn Alyn ynglŷn â bwlio ar gyfryngau cymdeithasol ac anfon negeseuon testun anwedus yn dilyn ceisiadau gan y disgyblion. Roedd hyn yn cynnwys perfformiad gan Gwmni Theatr Cat's Paw, Gwersi Addysg Cyfoedion a chwe gwera ar gyfer disgyblion Blwyddyn 8. Mae hyn yn cael ei ddarparu i'r holl ysgolion uwchradd yn awr. Enillodd y prosiect Wobr Gwasanaeth Cymunedol Uchel Siryf Clwyd. (PPhI) • Mynychodd gweithwyr y Siop Wybodaeth hyfforddiant a chynadledau ar gyfer materion yn ymwneud â throedd casineb, tai, bwlio ac ati (PPhI) • Y Siop Wybodaeth yn cyflawni ymchwil yn canolbwyntio ar brofiadau pobl ifanc o droedd casineb, digwyddiadau casineb, adrodd. (PPhI) • Yn ystod wythnos Gwaith leuenctid darparodd y Siop Wybodaeth ddiwrnod cyfan o waith atal Troedd Casineb, gyda gweithwyr perthnasol yn bresennol. Roedd y rhain yn cynnwys Swyddog Amrywiaeth, BAWSO a Chefnogaeth i Ddiodefwyr gyda 27 o bobl ifanc yn bresennol. (PPhI) • Mae'r Siop Wybodaeth yn mynychu Tai Gwarchod LGBTQ a dosbarthu gwybodaeth hyrwyddo i bobl ifanc. (PPhI) • Mae'r Siop Wybodaeth yn gweithredu fel canolfan adrodd Troedd Casineb Trydydd Parti. (PPhI) • Datblygodd y Siop Wybodaeth bartneriaethau gydag Unique y rhwydwaith trawsrywiol ar gyfer Gogledd Cymru a Sir Gaer. (PPhI) • <i>Sefydlwyd Tîm Diogelu Pobl ym mis Ionawr 2014. (GCO, a PPhI).</i> • <i>Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gweithio gyda phartneriaid i</i>

			<p><i>ddatblygu Canolfan Ddiogelu Amlddisgyblaeth (MASH) i gydlynu ymateb i bryderon yr Heddlu ynglŷn â phlant ac oedolion diamddiffyn (GCO a PPhl)</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Derbyn cyllid rhanbarthol ar gyfer Cydlynedd Gwrth Fasnachu mewn Pobl (LICD) • Cynllunio a darparu cynhadledd Gwrth Fasnachu mewn Pobl Gogledd Ddwyrain Cymru (LICD) • Cynnal 30 Canolfan Adrodd Trydydd Parti (LICD) • 16 digwyddiad casineb wedi'u hadrodd ac ymateb iddynt (LICD) • Sefydlu grŵp cyfeirio trosedd casineb (LICD) • Mae Cynlluniau Brys wedi'u diwygio i ystyried anghenion diwylliannol ac ysbrydol pobl Wrecsam. (LICD)
		5. Mae pobl yn hyderus yn adrodd am densiynau cymunedol	<ul style="list-style-type: none"> • 25 tensiwn cymunedol wedi'u hadrodd a'r camau gweithredu priodol wedi'u cyflawni (LICD)
		6. Hyrwyddo cysylltiadau da o fewn a rhwng gwahanol gymunedau	<ul style="list-style-type: none"> • 2,680 o oriau gwirfoddoli yn y 25 ardal mwyaf difreintiedig Wrecsam (ATDC) • 627 o bobl wedi cymryd rhan mewn dysgu cymunedol yn y 25 ardal fwyaf difreintiedig yn Wrecsam (ATDC) • 42 o bobl wedi mynychu rhaglenni dysgu cymunedol wedi'u darparu drwy gyfrwng y Gymraeg (ATDC) • 558 safleoedd posibl wedi'u cyflwyno ledled y Fwrdeistref i'w cynnwys yn y CDLI. Ar hyn o bryd yn cael eu sgrinio cyn ymgynghoriad cyhoeddus yn 2015 (LICD) • Hyrwyddo Wythnos Ffoaduriaid a datblygu cofnod ffotograffig o Ffoaduriaid lleol fel adnodd codi ymwybyddiaeth pellach (LICD) • Hyrwyddo Mis Hanes Sipsiwn a Theithwyr a chynnal digwyddiad cyhoeddus (LICD) • Datblygu cyfres o daflenni data Dyma Wrecsam (LICD, PGPh)
		7. Lleihau anghydraddoldebau o ran cynrychiolaeth a llais	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r gwasanaethau llyfrgell wedi datblygu grŵp ysgrifennu Cymraeg gydag awdur Cymraeg lleol yn diwtor iddynt, a grŵp darllen Grŵp Trafod. (LICD) • Mae Llyfrgell Wrecsam yn cynnal sesiwn Stori a Chân ar gyfer babanod ac mae llyfrgelloedd eraill yn cynnal sesiynau straeon byrion Cymraeg ac yn derbyn ymweliadau gan eu grwpiau chwarae Cymraeg lleol. (LICD) • Roedd 31 digwyddiad llenyddol / grwpiau darllen ar gyfer oedolion drwy gyfrwng y Gymraeg gyda 241 o gyfranogwyr a 99 digwyddiad ar gyfer plant gyda 1,322 o gyfranogwyr. (LICD) • 2013/14 – benthycwyd 2,356 o lyfrau Cymraeg i oedolion a 11,693 o lyfrau

			<p>Cymraeg iau (LICD)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor wedi adolygu ac Asesu Effaith ar Gydraddoldeb eu gweithdrefnau a ffurflenni Asesu Cymraeg. Roedd hyn yn brosiect ar y cyd rhwng adran Adnoddau Dynol a Rheolwr Arweiniol y Gymraeg. Mae gweithdrefn a ffurflenni diwygiedig wedi'u cyhoeddi ac yn cael eu defnyddio. (GCC) • Mae'r holl orsafoedd pleidleisio etholiadol wedi'u gwirio i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion mynediad i bobl anabl cyn bob etholiad. (GCC) • Mae ffurflen adborth y Gwasanaeth Cofrestru'n cynnwys gwybodaeth monitro cydraddoldeb. (GCC) • Adolygu a diwygio polisi ymgysylltu â chwsmeriaid (GCC) • Cynyddu cyfranogaeth gyhoeddus i ymgynghoriadau trwy ddatblygu a gweithredu Strategaeth Ymgynghori (PGPh) • Cyfrannodd yr Uwch Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr at ddogfen 'Cynrychioli Llais' ar ran Grŵp Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru. (LLL) • <i>Mae Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc wedi datblygu dogfen asesu gyfunol newydd. Mae hyn wedi cael effaith bositif ar ansawdd yr ymarfer a sicrhau bod anghenion y plentyn / unigolyn ifanc yn cael blaenoriaeth wrth wneud penderfyniadau, a bod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn briodol i anghenion yr unigolyn. (PPhl)</i> • <i>Canran y plant a welodd weithiwr cymdeithasol fel asesiad cychwynnol yn 2013/14 oedd 96.5% o gymharu â 74.1% yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru yn 2012/13 o 75.4% (PPhl)</i> • <i>Mae ymchwil Bwrdd Lleol Diogelu Plant Wrecsam a Sir y Fflint yn ymwneud â phlant sy'n rhan o broses diogelu plant wedi'i gwblhau a bydd yn cael ei ddefnyddio i lywio datblygiad y gwasanaeth a hyfforddiant o 2014 (PPhl)</i> • Cwblhawyd yr asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. Mae angen 27 lleoliad newydd (gan gynnwys rhai cymdeithasol a phreifat) (ATDC, LIDC). • Ymgynghorwyd ynglŷn â chanllawiau ynglŷn â'r Gymraeg, dirymu trosedd a thai fforddiadwy ac fe'u diwygiwyd yn ystod 2013/14 (LIDC) • Datblygu Grŵp Ail-Lunio Gwasanaethau i gefnogi proses Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb. Aelodaeth yn adlewyrchu'r holl nodweddion a ddiogelir a Gofalwyr, Tlodi a'r Gymraeg (LIDC) • Gosodwyd rhyngwrdy diwifr yn Llyfrgell Llai (LIDC) • Mynediad TG am ddim yn llyfrgell Wrecsam ar gyfer rhai sy'n chwilio am
--	--	--	--

			<p>swyddi (LICD)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynhyrchu Pecyn Gwaith Ymgynghori gan gynnwys gwybodaeth er mwyn ymgynghori gyda grwpiau llai adnabyddus (PGPh)
Lle	<p>Cartrefi sy'n diwallu anghenion a dyheadau pobl</p> <p>Lle amgylcheddol cyfrifol</p> <p>Cymunedau o gymdogaethau, adeiladau a mannau agored cynaliadwy a deniadol</p> <p>Cymunedau wedi eu cysylltu'n dda</p>	<p>8. Lleihau anghydraddoldebau wrth gael mynediad i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygu ac Asesu Effaith ar Gydraddoldeb eu gweithdrefnau a ffurflenni Asesu Cymraeg. Prosiect ar y cyd rhwng adran Adnoddau Dynol a Rheolwr Arweiniol y Gymraeg. Cyhoeddiad wedi'i ddiwygio ar gyfer Penaethiaid Adran 2014, AD yn awr yn eu defnyddio. (GCC) • Cylchgrawn Connect ar gael ar-lein gyda modd lawrlwytho copiau caled gan sicrhau ei fod ar gael i bawb. (GCC) • Darparu cyngor cyfreithiol perthnasol wrth ddatblygu polisiau neu wrth eu hadolygu ac ystyried cydraddoldeb wrth gynghori adrannau cleient ar faterion megis caffael (GCC) • Cefnogi systemau TG sy'n galluogi adrannau i recordio, monitro a dadansoddi data cydraddoldeb perthnasol gan lywio eu penderfyniadau yn y dyfodol. (GCC) • Datblygu a rheoli system sy'n cofnodi ac adrodd ar Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb sy'n cael eu cwblhau yn y sefydliad. (GCC, LICD) • Codi ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb a sicrhau ei fod yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd rheoli adrannol a chyfarfodydd tîm. (GCC) • Wedi gweithio gydag Adran Datblygu Economaidd a darparwyr trydydd parti (e.e. BT) ynglŷn â gwella cysylltedd electronig a symud i ddarpariaeth ffibr optig yn Wrecsam. (GCC, ADE) • Datblygu archwiliadau mynediad i ddarparu rhaglen £150,000 Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd sy'n derbyn atgyfeiriadau gan ysgolion ar gyfer addasiadau penodol (ADE) • Cynyddu hygyrchedd Hawl Tramwy Cyhoeddus - 180 o lwybrau wedi derbyn gwaith, 65 arwydd/baner wedi'u gosod, 69 camfa wedi'u gosod neu eu hatgyweirio, 28 pont a chroesfannau ffosydd wedi'u gosod neu eu hatgyweirio, 5 canllaw a rheiliau diogelwch wedi'u gosod neu eu hatgyweirio, ail-wynebu 11 llwybr neu glirio arwyneb. (AA) • Darparu 5 taith gerdded wedi'u tywys dros yr haf 2013 (AA) • Cynyddu cyfranogaeth a defnydd o Barciau'r Fwrdeistref a mannau agored: Parc Bellevue – 406,233, Tŷ Mawr – 62,141, Dyfroedd Alun – 111,054, Nant y Felin – 34,000, Cyfanswm nifer yr ymwelwyr 613,958 ar gyfer safleoedd cofnodi (AA) • Galluogi 5071 o blant i ymweld â'r parciau mewn grwpiau ysgol (AA)

			<ul style="list-style-type: none"> • Galluogi 27,526 o ddigwyddiadau mewn parciau (AA) • Cynnal gwasanaeth Strydwedd a chyswllt ar gyfer 'Balchder eich Strydoedd' yn parhau i gael eu darparu drwy Galw Wreccsam fel pwynt cyswllt sengl i'r cyhoedd. (AA) • Datblygu Rheolaeth Cofnodion Cwsmer newydd er mwyn galluogi gwell adborth a gwybodaeth gan gwsmeriaid (AA) • CBSW wedi cyflawni 52% ailgylchu yn y Fwrdeistref (AA) • Gwella gwaith gyda grwpiau cymunedol ar gyfer y galw am wasanaeth gwastraff 'ychwanegol' e.e. yn ystod Ramadan (AA) • 50% o gynnydd mewn Diwrnodau Gweithredu Amgylcheddol a gynhaliwyd mewn amrywiaeth ehangach o gymunedau (AA) • Mae digwyddiadau wedi'u targedu i geisio cysylltu â chymunedau mewn dulliau gwahanol • Cynyddu'r defnydd o arwyddion darluniadol i gynyddu ymwybyddiaeth o ailgylchu (AA) • Darparu 104 o unedau newydd o dai fforddiadwy (ATDC) • 32 eiddo gwag y cyngor yn cael eu defnyddio eto (ATDC) • 81.6% o aelwydydd oedd yn wynebu'r posibilrwydd o ddigartrefedd lle cafodd digartrefedd ei atal am o leiaf 6 mis [46.23% oedd y targed] (ATDC) • 521 ymholiad ynglŷn â digartrefedd, 134 cais digartrefedd. 98% o benderfyniadau wedi'u cyflawni o fewn 33 diwrnod gwaith [85% oedd y targed] (ATDC) • 732 eiddo wedi derbyn ystafell ymolchi newydd (ATDC) • 1082 eiddo wedi derbyn cegin newydd (ATDC) • 601 eiddo wedi derbyn system wresogi (ATDC) • 632 eiddo yn derbyn gwaith i sicrhau eu bod mewn cyflwr da (ATDC) • Mae'r Cyngor yn parhau i leihau % yr allyriant carbon o dai'r sector cyhoeddus ledled y Fwrdeistref Sirol ers 2011/12 (tai'r sector cyhoeddus). Dylai bod cam 1 a 2 wedi'u cwblhau erbyn Tachwedd 2014 (ATDC). • Mae ymgyrch ymwybyddiaeth ynni'n cael ei gynnal ar gyfer gweithwyr y Cyngor ac mewn nifer o ysgolion gan gynnwys cynnal archwiliadau ynni. Bydd canlyniadau'r archwiliadau ynni'n ffurfio sylfaen ar gyfer prosiectau'r dyfodol. (ATDC) • Mae adolygiad o Astudiaeth Ddichonoldeb biomas yn cael ei asesu ar hyn o bryd. Mae'r swyddogion yn asesu'r potensial o ddatblygu cynllun mor fawr ar hyn o bryd. (ATDC)
--	--	--	--

			<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Swyddog Effeithlonrwydd Ynni yn parhau i ymweld â thenantiaid y cyngor ar gais i ddarparu cyngor a chefnogaeth ynglŷn ag effeithlonrwydd ynni. (ATDC) • Cynhaliwyd peilot archwiliadau mynediad (mynediad i adeiladau ysgolion a'r cwricwlwm) yn ystod mis Mawrth 2014 gydag ysgol gynradd ac uwchradd. Mae gwerthusiad o'r peilot yn cael ei ysgrifennu ar hyn o bryd a disgwylir i'r gweithgor gyfarfod er mwyn dechrau tendro am gwmni i gyflawni'r gwaith ar ran yr ysgolion. (LLL) • <i>Mae'r Tim Gadael Gofal a Siop Wybodaeth y Gwasanaeth Ieuencid wedi'u cyd-leoli yn awr. Mae'r newid hwn wedi cael ei wneud i sicrhau defnydd mwy effeithiol ac effeithlon o wasanaethau ac adnoddau cyfredol, a rhoi pwynt mynediad sengl i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed i ystod o wasanaethau priodol i wella ansawdd eu bywydau. (PPhl)</i> • Mae'r holl geisiadau cynllunio'n cael eu cyhoeddi ar y we a'u hysbysebu yn yr ardal. Hysbysir y Cymdogion, y Cyngor Cymuned a'r aelodau er mwyn i gymunedau ac unigolion gael cyfle i gyflwyno sylwadau. (LICD) • Mae 90% o geisiadau cynllunio'n cael eu gwirio i sicrhau eu bod yn hygyrch i bawb gan gynnwys rhai gydag anabledd. (LICD) • Mae Cynlluniau Ymgynghori ac Ymgysylltu'n cael eu datblygu er mwyn galluogi ymgynghoriad cyhoeddus ar ddrafft y Cynllun Datblygu Lleol. (LICD) • Gosodwyd ryngrwyd di-wifr yn Llyfrgell Llai (LIDC) • Mynediad TG am ddim yn Llyfrgell Wrecsam ar gyfer rhai sy'n chwilio am swyddi (LICD) • Mynediad TG am ddim yn Llyfrgell Wrecsam i ddysgu ar-lein trwy'r Open University (LICD). • Datblygodd Llyfrgell Wrecsam categori benthyca newydd ar gyfer pobl ddigartref, gan eu galluogi i ymuno â'r gwasanaeth Llyfrgell gydag ychydig iawn o wybodaeth adnabod (LICD)
Sefydliad	<p>Cwsmeriaid bodlon sy'n rhan o'n hymdrechion</p> <p>Creu'r amodau ar gyfer llwyddiant</p>	<p>9. Mae'r sefydliad angen hyrwyddo cydraddoldeb o safbwynt canlyniadau i'w cyflawni</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod holl gynigion cyllidebol yn cynnwys Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AG) • Cefnogi datblygiad meini prawf sicrwydd ansawdd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AG) • Adolygu a gweithredu ffurflen ddiwygiedig Gweithlu, Recriwtio a Dethol o fis Hydref 2013 yn dilyn canllawiau newydd Llywodraeth Cymru. (GCC) • Lansio ffurflenni monitro cydraddoldeb gweithwyr ar gyfer holl ysgolion yn ardal Wrecsam. Cyfathrebu'n helaeth gyda'r ysgolion a gweddill y

			<p>gweithlu i sicrhau bod ein data'n gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn, (GCC)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno system rheoli data adran Adnoddau Dynol newydd i gofnodi data amrywiaeth gweithlu. (GCC) • Gweithredu gweithdrefnau i sicrhau bod data ymgeiswyr newydd yn cael eu casglu a'u cofnodi, a bod gan gyflogwyr gyfle i adolygu, diweddarau neu ddiwygio eu data personol a bod gofynion Deddf Diogelu Data yn cael eu diwallu. (GCC) • Adolygu ac asesu effaith amrywiaeth o bolisiau AD perthnasol ar gydraddoldeb (GCC) • Cynnal achrediad "Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl" (Tic Dwbl) (GCC) • Mae gan holl bolisiau AD adran yn ymwneud â chydaddoldeb. Mae'r polisiau canlynol wedi'u cymeradwyo gan fwrdd gweithredol ac yn cyfeirio at addasiadau rhesymol ar gyfer nodweddion a ddiogelir yn briodol: Datganiad Cyflog Cyfartal; Polisi Lwfans Adleoli; Holiadur Gadael a phroses Gyfweld; Polisi Gwyliau Blynyddol (GCC) • Gwaith ar y gweill i ail-lansio Proses Gyflafareddu a hyrwyddo ei defnydd er mwyn gallu datrys materion gweithwyr ar y cam cynharaf posibl. (GCC) • Mae gwaith helaeth wedi'i gyflawni ar ganllaw rheoli presenoldeb ar gyfer Rheolwyr gan gynnwys ymdrin â materion mamolaeth ac anabled (GCC) • Mae'r polisi Cam-drin Domestig wedi'i ddiwygio i ymgorffori diffiniad CLILC. (GCC)
		<p>10. Datblygu ymagwedd fwy strategol tuag at gasglu a defnyddio data cydraddoldeb</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ymgorfforwyd ffurflen monitro cydraddoldeb safonol yn rhan o arolygon Canol y Dref a Thwristiaeth yn 13/14 (ADE). • <i>Mae'r Tim Datblygu a Strategaeth y Gweithlu wedi sefydlu grŵp Cydraddoldeb Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gymraeg i annog a monitro cynnydd. (GCO a PPhl)</i> • <i>Mae data cydraddoldeb yn cael ei gasglu, ei fonitro a'i ddadansoddi'n rheolaidd ac yn llywio datblygiad y gwasanaeth (GCO a PPhl)</i> • <i>Mae Grŵp Cydraddoldeb Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gymraeg wedi cwblhau blwyddyn gyntaf yr argymhellion gan Lywodraeth Cymru – fframwaith strategol "Mwy na dim ond Geiriau", mae Cynllun Gweithredu'r Gymraeg ar gyfer y 2 flynedd sy'n weddill ar waith ac mae'r grŵp yn parhau i oruchwylio ei weithrediad. (GCO a PPhl)</i> • Rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2014 cynhaliodd Llyfrgelloedd Wrecsam Arolwg Llyfrgelloedd Pobl Ifanc ar gyfer ymwelwyr 16 oed neu iau. Rhoddodd 87% 9/10 allan o ddeg o ran bodlonrwydd cyffredinol. Roedd 57% o'r

			<p>ymatebwyr yn fenywod; 43% yn wrywod. Rhoddwyd gradd 9.5 allan o 10 ar gyfer hygyrchedd (LICD)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu offer AEG ar bapur ac ar-lein gan gynnwys offer sgrinio (LICD, GGC). • Datblygu taflenni data Dyma Wreccsam ar gyfer pob nodwedd a ddiogelir a Gofalwyr, Tlodi a'r Gymraeg (LICD, PGPh) • Datblygu Grŵp Ail-lunio Gwasanaethau i gefnogi proses AEG (LICD) • Cytuno ar broses Sicrwydd Ansawdd AEG. (LICD, GGC).
		11. Gwella'r broses o fonitro gweithlu ar draws nodweddion a ddiogelir	<ul style="list-style-type: none"> • Lansio ffurflen ddiwygiedig Gweithlu a Recriwtio a Dethol ym mis Ionawr 2013 i gasglu data ar yr holl nodweddion a ddiogelir. (GCC) • Cyflwyno system rheoli data Adnoddau Dynol newydd i gofnodi data amrywiaeth gweithlu. (GCC) • Gweithredu gweithdrefnau i sicrhau bod data ymgeiswyr newydd yn cael eu casglu a'u cofnodi, a bod gan gyflogwyr gyfle i adolygu, diweddarau neu ddiwygio eu data personol a bod gofynion Deddf Diogelu Data yn cael eu diwallu. (GCC) • Mae arolygon bodlonrwydd staff Adran Asedau a Datblygu Economaidd wedi'u cyhoeddi ar y fewnrwyd ac mae'r canlyniadau'n cael eu monitro fel rhan o strategaeth gyfathrebu adrannol. (ADE)
		12. Adolygu a gwella polisïau cyflogaeth i fynd i'r afael â than-gynrychiolaeth ac unrhyw rwystrau i gael mynediad at waith	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygu ac asesu effaith amrywiaeth o bolisïau AD perthnasol ar gydraddoldeb a restrwyd isod Cynnal achrediad "Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl" (Tic Dwbl) (GCC)
		13. Codi ymwybyddiaeth am ofynion o fewn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mewn cysylltiad â chaffael i sicrhau bod contractau'n cael eu monitro	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Tîm Datblygu Cymunedol yn arwain canlyniadau Buddion Cymunedol yn enwedig o ran Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid ledled y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys nifer o adrannau gan gynnwys Tai. Mae'r rheolwyr hyfforddiant a dysgu yn gweithio gyda chontractwyr i ganfod cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant ar gyfer grwpiau difreintiedig o ardaloedd difreintiedig ac fel rhan o'u contractau bydd Adran Asedau a Datblygu Economaidd yn adrodd ar hyn drwy Gynllun y Cyngor 2014/15. (ADE) • Mae amcanion cydraddoldeb y Cyngor wedi'u halinio ac yn cael eu darparu drwy gynlluniau gwasanaeth adrannol (LICD, GGC, PGPh) • Amcanion cydraddoldeb lleol a rhanbarthol, amcanion cydlynid ac argymhellion adolygu cyfoedion CLILC wedi'u halinio yn un set o amcanion

			<p>(LICD, PHPH, GGC)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Wedi cytuno ar broses i nodi cyfraniadau adrannol i'r CCS o fewn Cynlluniau Gwasanaeth (LICD, GGC, PHPH).
		14. Annog trafodaeth ar faterion cydraddoldeb mewn cyfarfodydd tîm ar gyfer pob maes gwasanaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal gweithdy i ddatblygu Cynllun Gwasanaeth 2014/15 oedd yn sicrhau bod materion cydraddoldeb yn cael eu hymgorffori fel elfen allweddol o'r Cynlluniau Adrannol. (GCC)
		15 Staff y Sector Cyhoeddus, Gwirfoddol a Chymunedol yn deall pwy yw ein cymunedau a beth maent ei angen	<ul style="list-style-type: none"> • Staff datblygu cymunedol ADE yn gweithio gyda'r 25 cymuned mwyaf difreintiedig (ADE) ✓ <i>Cynllun Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol ar waith. (GCO a PPH)</i> ✓ <i>Mae'n ofynnol i holl staff a rheolwyr Gofal Cymdeithasol sy'n ymgymryd â chymwysterau arddangos dealltwriaeth o faterion cydraddoldeb;</i> ✓ <i>Mae'r gweithdy hanner diwrnod, a ddatblygwyd ar gyfer rheolwyr cofrestredig Hyrwyddo Cydraddoldeb ac Urddas ar lefel Ymarferol / Rheoli Gwasanaethau' yn parhau i gael ei ddarparu;</i> ✓ <i>Cwrs Hyrwyddo Cydraddoldeb ac Urddas mewn Gofal; ar gyfer staff gofal cymdeithasol a mynychodd tua 91 yn 2013/14. Mae hyfforddiant pellach yn cael ei drefnu ar gyfer 2014/15.</i> ✓ <i>Cefnogwyd Cynhadledd Urddas mewn Dementia Gogledd Cymru gan Gyngor Wrecsam ym mis Chwefror 2014. Bwriad hyn oedd codi ymwybyddiaeth a rhannu arferion gorau o ran cefnogi pobl â dementia a'u gofalwyr / teuluoedd;</i> ✓ <i>Mae gan Wrecsam a Sir y Fflint Rwydwaith Cefnogwyr Urddas mewn Gofal; Mae'r aelodaeth yn cynnwys darparwyr annibynnol Cartref a phreswyl, ALI, trydydd sector, Defnyddwyr Gwasanaeth GOGDdC, Cyngor Iechyd Cymunedol, Contractau. Maent yn cyfarfod bob 2-3 mis i drafod Urddas mewn Gofal. Mae'r siaradwyr gwadd a fu'n ymweld â hwy'n cynnwys unigolion o'r gwasanaeth ambiwlans, gadael yr ysbyty a chynrychiolwyr eraill. Maent yn rhannu pryderon ac enghreifftiau o arferion da.</i> ✓ <i>Trefnwyd gweithdy Mwy na Geiriau – cyfrwng Cymraeg mewn partneriaeth â Chyngor Sir y Fflint ac roedd rheolwyr a gweithwyr o Adran Gofal cymdeithasol y Cyngor a darparwyr annibynnol yn bresennol. Nod yr hyfforddiant oedd mynd i'r afael ag arwyddocâd fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg ym maes gofal cymdeithasol o ran: Pam fod angen datblygu'r gwasanaethau sydd ar gael i ddefnyddwyr</i>

			<p><i>gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg, beth sydd angen i ddarparwyr gofal cymdeithasol ei wybod ynglŷn â'r fframwaith strategol a chyd-destun ehangach y Gymraeg yng Nghymru gyfoes a sut i gynllunio gwasanaethau gyda'r diben o weithredu'r egwyddor o Gynnig Gweithredol.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> ✓ <i>Mae Cynllun Hyfforddi Gofal Cymdeithasol Plant ac Oedolion 2013/14 yn cynnwys hyfforddiant gogyfer â materion cydraddoldeb e.e. mae hyfforddiant Dementia, Diogelu a Gwarchod Oedolion yn cynnwys ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth a digwyddiadau hyfforddi eraill megis Diogelu Oedolion, croesgyfeirio cydraddoldeb</i> • <i>Datblygu modiwlau e-ddysgu (LICD):</i> ✓ <i>Deddf Cydraddoldeb 2010</i> ✓ <i>Cydraddoldeb yn y gweithle;</i> ✓ <i>Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb</i> ✓ <i>Mynd i'r Afael â Throsedd Casineb;</i> ✓ <i>Monitro Tensiwn Cymunedol</i> ✓ <i>Hyrwyddo Perthnasau Da.</i>
--	--	--	--


Gwybodaeth am gydraddoldeb:

Rydym wedi defnyddio Cyfrifiad 2011 i'n cynorthwyo i gael gwell dealltwriaeth o'r boblogaeth leol. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i'n cynorthwyo i ddeall pa mor dda y mae ein gwasanaethau yn diwallu anghenion y boblogaeth gyfan.

Mae taflenni data 'Dyma Wrecsam' ar gael yn awr ar gyfer staff gyda'r holl nodweddion a ddiogelir a'r Gymraeg a Diwylliant, Gofalwyr a Thlodi gan fod y rhain yn flaenoriaethau corfforaethol.

Hil ac Ethnigrwydd:

Mae **93.1%** o boblogaeth Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn Wyn: Cymreig / Prydeinig ¹ Golyga hyn fod dros **9,100** o gwsmeriaid, cydweithwyr, cymdogion a ffrindiau yn perthyn i'r grwpiau ethnig a nodir isod:




Anabledd

Mae gweithgareddau bob dydd **1 mewn 5** o bobl Wrecsam wedi'u cyfyngu oherwydd salwch. Golyga hyn **27,905** o bobl². Nid yw'r cyfrifiad yn casglu gwybodaeth benodol ynglŷn â nifer y bobl sydd ag anabledd, ond gellir defnyddio gwybodaeth berthnasol o'r wybodaeth am fudd-daliadau anabledd.³

¹ Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol © Hawlfraint y Goron 2012. Ymatebwyr sy'n dynodi eu hunain fel Gwyn: Saeson/ Cymry/ Albanwyr / Unigolion o Ogledd Iwerddon / Prydeinig

² Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol © Hawlfraint y Goron 2012. Ymatebwyr yn dynodi eu hunain fel unigolion â chyfyngiad bychan neu gyfan gwbl ar eu gweithgareddau dydd i ddydd oherwydd problemau iechyd hirdymor neu anabledd.

³ Data wedi'i gymryd o Nomisweb ar 25 Medi 2013. Y ffynonellau yw hawlwr budd-daliadau DWP – grŵp cleientiaid oed gwaith.



More than 1 in 10 people in Wrexham are carers. Some of them children. 3% of local people provide more than 50 hours of unpaid care a week.

Hawliadau Budd-daliadau Anabledd yn Wrexham
6,070 o bobl leol yn hawlio budd-daliadau ESA / analluogrwydd
1,290 o bobl leol yn hawlio budd-daliadau anabledd
1,560 o bobl leol yn hawlio budd-daliadau Gofalwr

Ceisiadau am gyfieithu 2012/13 a 2013/14

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd darparu gwybodaeth a gwasanaethau i gwsmeriaid yn eu iaith eu hunain. Rydym hefyd yn gweithio gyda'n partner i gynorthwyo pobl i gael mynediad at gyrsiau Cymraeg a Saesneg.

Defnydd o iaith				Defnydd o iaith			
2013/14				2012/13			
Iaith	Cyfieithu dros y ffôn	Cyfieithu dogfennau	Cyfanswm	Iaith	Cyfieithu dros y ffôn	Cyfieithu dogfennau	Cyfanswm
Arabeg		2	2	Arabeg	2		2
Bengaleg		2	2	Bengaleg	1		1
Tsieinëeg (syml)		2	2	Tsieinëeg (syml)		4	4
Tsieinëeg (traddodiadol)		3	3	Tsieinëeg (traddodiadol)			0
Cantoneg	2		2	Cantoneg	1		1
Tsieceg	1	2	3	Tsieceg			0
Farsi (Perseg)	3	1	4	Farsi (Perseg)	1		1
Ffrangeg			0	Ffrangeg	4		4
Almaeneg			0	Almaeneg			0
Japaniad		3		Japaniad			
Cwrdeg (Bahdini)			0	Cwrdeg (Bahdini)	19		19
Cwrdeg (Sorani)			0	Cwrdeg (Sorani)	3		3
Lithwaneg			0	Lithwaneg			0
Mandarin	6		6	Mandarin	13		13
Pashto			0	Pashto			0
Pwyleg	80	44	124	Pwyleg	108	23	131
Portiwgaleg	24	18	42	Portiwgaleg	14	5	19

			2				9
Rwseg			0	Rwseg			0
Sbaeneg			0	Sbaeneg	1		1
Slofaceg		2	2	Slofaceg	6		6
Tamileg			0	Tamileg			0
Tigrinia			0	Tigrinia			0
Tyrceg			0	Tyrceg			0
Wrdw		2	2	Wrdw	2		2
Cyfanswm	116	81	194	Cyfanswm	175	32	207

Ysgolion

Proffil Llywodraethwyr Ysgolion yn ôl rhyw - Ionawr 2013

Ysgolion cynradd

Rhyw	Nifer	%
Gwryw	248	39
Benyw	393	61
Cyfanswm	641	

Ysgolion uwchradd

Rhyw	Nifer	%
Gwryw	93	60
Benyw	61	40
Cyfanswm	154	

Cyfanswm Ysgolion Cynradd ac Uwchradd

Rhyw	Nifer	%
Gwryw	341	43
Benyw	454	57
Cyfanswm	795	

Proffil disgyblion ysgol yn ôl cefndir ethnig - Ionawr 2014

YSGOLION CYNRADD		
Cefndir Ethnig		
Allwedd	Nifer disgyblion	%
Gwyn Prydeinig	11123	88.01
Unrhyw gefndir gwyn arall (WOTH)	196	1.55
Ni chafwyd unrhyw wybodaeth	374	2.96
Gwrthodwyd a Gwag	27	0.21
Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BME)	918	7.26
Cyfanswm	12638	100

Ysgolion Uwchradd		
Cefndir Ethnig		
Allwedd	Nifer disgyblion	%
Gwyn Prydeinig	5871	91.81
Unrhyw gefndir gwyn arall (WOTH)	143	2.24
Ni chafwyd unrhyw wybodaeth	2	0.03
Gwrthodwyd a Gwag	37	0.58
Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BME)	342	5.35
Cyfanswm	6395	100

YSGOLION ARBENNIG		
Cefndir Ethnig		
Allwedd	Nifer disgyblion	%
Gwyn Prydeinig	264	92.96
Unrhyw gefndir gwyn arall (WOTH)	8	2.82
Ni chafwyd unrhyw wybodaeth	0	0.00
Gwrthodwyd a Gwag	0	0.00
Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BME)	12	4.23
Cyfanswm	284	100

Siop Wybodaeth i Ieuenctid

Defnyddir yr wybodaeth hon i'n cynorthwyo i ddatblygu ein gwasanaethau gwybodaeth i bobl ifanc.

Rhyw yn ôl Nifer a %

Rhyw	Nifer	%
Gwryw	6145	43.4%
Benyw	7998	56.6%
Cyfanswm	14143	

Proffil Oedran yn ôl %

Oedran	%
11-12	5.4
13-15	33.3
16-19	50.2
20-25	7.3
Dros 25	2.6
Rhiant / Gofalwr	0.8
Oedolyn yn cynrychioli unigolyn ifanc	0.4

Anabledd yn ôl nifer

Anabledd	Nifer
Anabl cofrestredig	74
Ddim yn anabl	2
Anhysbys	14067
Cyfanswm	14143

Hil Ac Ethnigrwydd

Hil Ac Ethnigrwydd	Nifer
Du	370
Gwyn	13703
Asiaidd	28
Cymysg	42
Arall	0
Anhysbys	0
Cyfanswm	14143

Troseddau Casineb

Mae'r canlynol yn rhoi manylion am y math a nifer y troseddau casineb a adroddwyd i Brosiect Adrodd Trydydd Parti'r Cyngor yn 2013/14. Defnyddir y data hwn i dargedu ein hyfforddiant a'n cefnogaeth:

Natur y Drosedd Casineb	Nifer yr Adroddiadau
Hiliol	14
Tueddfryd Rhywiol	2
Anabledd	0
Rhyw	0
Ffydd	0
Heb ddatgelu	0

Cyfanswm Nifer y Troseddau Casineb a Gafodd eu Hadrodd (2013/14)	16
--	----

Yn ystod 2014-15 byddwn yn canolbwyntio ar weithredu Fframwaith Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Mynd i'r Afael â Throsedd Casineb

Gwybodaeth am weithwyr - gweler yr Adroddiad Monitro Cydraddoldeb yn y Gweithlu 2011-12

http://www.wrexham.gov.uk/top_navigation/equality.htm#keydocs

Rhestr Termiau

AA - Adran Amgylchedd
ADE - Adran Asedau a Datblygu Economaidd
ADGO - Adran Dysgu Gydol Oes
AEG - Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb
ATDC - Adran Tai a Diogelwch y Cyhoedd
BME - Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig
CAADA - Gweithredu Cydlynol yn erbyn Cam-drin Domestig
CAMHS - Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
CCS - Cynllun Cydraddoldeb Strategol
CD a ThRh – Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
CLILC - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cynllun Integredig Sengl-
Estyn - Estyn yw'r swyddfa arolygiaeth dros addysg a hyfforddiant yng Nghymru
GCC - Adran Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid
GCO - Adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion
LGBT - Lesbiaid, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol
LICD - Adran Lles Cymunedol a Datblygu
MARAC - Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth
PPhI - Plant a Phobl Ifanc